

Rhif: WG41757



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

## Lleihau'r defnydd o blastig untro

Cynigion i wahardd naw math o gynnyrch  
plastig untro yng Nghymru

Awst 2022

Mae'r ddogfen hon ar gael hefyd yn Saesneg.  
This document is also available in English.

**OGI** © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80195-886-8



## Cynnwys

Cyflwyniad.....	4
Sut rydym yn adolygu ac yn cyflwyno data yn y ddogfen hon .....	4
Ymatebion i'r ymgynghoriad.....	4
Ymgyrchoedd, ymgyrchwyr ac ymatebion grŵp .....	5
Iaith yr ymateb.....	5
Ymatebion i'r ddogfen ymgynghori lawn.....	6
<b>Cwestiwn 1:</b> Ydych chi'n cefnogi ein cynnig i wahardd pob un o'r eitemau platig untro a restrir uchod? Os nad ydych chi, rhwch resymau gyda thystiolaeth i ategu hyn os oes modd. ....	6
Gwellt.....	7
Cynwysyddion bwyd a chwpanau o Bolystyren wedi'i ehangu/anwthio.....	7
Platiau a chytleri.....	8
Cynhyrchion wedi'u gwneud o blastig ocso-bioddiraddiadwy.....	8
<b>Cwestiwn 2 -</b> Ydych chi'n cytuno y bydd manteision amgylcheddol a chymdeithasol posibl ein cynigion yn gorbwyso'r effeithiau posibl ar bobl yng Nghymru? Rhwch resymau gyda thystiolaeth i ategu hyn os oes modd.....	10
<b>Cwestiwn 4:</b> A ddylai plastig ocso-bioddiraddiadwy gael ei gynnwys ar restr yr eitemau i'w gwahardd? Rhwch dystiolaeth i ategu'r farn hon. ....	16
<b>Cwestiwn 5:</b> Ydych chi'n credu bod pandemig COVID-19 wedi arwain at newidiadau i'r farchnad na chawsant eu hystyried yn ein hymchwil ar hyn o bryd? Rhwch resymau gyda thystiolaeth i ategu hyn os oes modd. ....	19
<b>Cwestiwn 6:</b> Ydych chi'n cytuno â'r eithriadau rydym yn eu cynnig a sut y gallwn eu gwneud mor glir ac ymarferol â phosibl i'w cymhwyso? Rhwch resymau gyda thystiolaeth i ategu hyn os oes modd.....	21
<b>Cwestiwn 7:</b> A ddylem ystyried unrhyw eithriadau eraill mewn perthynas â'r holl eitemau plastig untro sy'n rhan o'n cynnig? .....	24
<b>Cwestiwn 8:</b> Ydych chi'n cytuno bod yr amserlen arfaethedig ar gyfer gweithredu'r gwaharddiadau yn rhoi digon o amser i fusnesau o bob math addasu? Rhwch resymau gyda thystiolaeth i ategu hyn os oes modd. ....	26
<b>Cwestiwn 9:</b> Ydych chi'n cytuno â'r defnydd arfaethedig o Gosbau Sifil?.....	28
<b>Cwestiwn 10:</b> Ydych chi'n cytuno y dylai awdurdodau lleol orfodi'r gwaharddiad? .....	30
<b>Cwestiwn 11:</b> A ddylid cynnwys weips mewn cynigion ar gyfer gwaharddiadau pellach yn y dyfodol neu a ddylid cyflwyno mesurau eraill i fynd i'r afael â nhw, er enghraifft Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr? Rhwch resymau gyda thystiolaeth i ategu hyn os oes modd.....	32

<b>Cwestiwn 12:</b> A oes unrhyw eitemau eraill y dylid eu cynnwys mewn unrhyw gynigion yn y dyfodol i fynd i'r afael â phlastigion untro? Rhowch resymau gyda thystiolaeth i ategu hyn os oes modd.....	35
<b>Cwestiwn 13:</b> Pa effeithiau fydd yn eich barn chi ar y Gymraeg? Sut mae cynyddu'r effeithiau cadarnhaol neu liniaru'r effeithiau negyddol?.....	37
<b>Cwestiwn 14:</b> Esboniwch hefyd sut rydych chi'n credu y gellid llunio neu newid y polisi a gynigir ar gyfer gwahardd dosbarthu a/neu werthu'r eitemau plastig untro a gynigir fel bod effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a dim effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. ....	38
<b>Cwestiwn 15:</b> Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i'w nodi.....	39
Ymatebion i'r Fersiwn Hawdd ei Ddarllen o'r ymgynghoriad ar blastig untro.....	41
<b>Cwestiwn 1:</b> Ydych chi'n cytuno â'n cynllun i leihau faint o blastig untro a ddefnyddir yng Nghymru? Os nad ydych chi, pam felly? .....	41
<b>Cwestiwn 2:</b> Allwch chi feddwl am unrhyw eitemau plastig untro eraill y dylem eu cynnwys ar y rhestr a nodwyd ar ddechrau'r holiadur hwn? .....	42
<b>Cwestiwn 3:</b> Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i'w nodi.....	43
Ymateb y Llywodraeth – y camau nesaf.....	44
ATODIAD 1 .....	46
<b>Senedd Ieuenctid Cymru / Welsh Youth Parliament – Gweithdy'r ymgynghoriad ar sbwriel .....</b>	46
<b>Gweithdy Platfform yr Amgylchedd Cymru.....</b>	48
<b>Digwyddiad Cymunedol ar gyfer Ymgynghori ar Leihau'r Defnydd o Blastig Untro – Pont-y-pridd.....</b>	49

## Cyflwyniad

Hoffem ddiolch i bawb sydd wedi ymateb i'n hymgyngoriad. Nid ein bwriad yn yr adroddiad hwn, hyd yn oed pe bai hynny'n bosibl, yw nodi pob sylw a ddaeth i law. Y diben yw rhoi trosolwg o'r ymatebion, syniad o'r mathau o bynciau a phryderon a godwyd fel ymateb i'n cynigion.

### Sut rydym yn adolygu ac yn cyflwyno data yn y ddogfen hon

Mae'r Crynodeb hwn o'r Ymatebion yn ymdrin â'r fersiwn llawn a fersiwn hawdd ei ddarllen o'r ddogfen ymgynghori. Gan fod y ddwy ddogfen yn wahanol, rydym wedi'u crynhoi a'u trin yn yr ymateb hwn ar wahân. Fodd bynnag, mae'r safbwyntiau a'r sylwadau a fynegwyd yn y ddau wedi'u hystyried.

Hefyd, mae nifer o gyfarfodydd ar-lein wedi'u cynnal gyda gwahanol grwpiau, gan gynnwys cynrychiolwyr y Senedd Ieuenctid, busnesau mawr sy'n gweithredu yng Nghymru, nifer o grwpiau cymunedol lleol a gweithdy ar-lein gydag academyddion ac arbenigwyr eraill ar Blatfform Amgylchedd Cymru. Fe welwch grynodedb o ganlyniadau'r digwyddiadau hyn yn yr atodiad i'r ddogfen hon.

### Ymatebion i'r ymgynghoriad

Daeth 3,581 o ymatebion i'r ymgynghoriad i law. Gellir eu rhannu yn ôl y categorïau canlynol:

Ymateb rhannol i'r ymgynghoriad llawn (heb ateb pob cwestiwn)	3429
Ymateb rhannol i'r ymgynghoriad Hawdd ei Ddarllen (heb ateb pob cwestiwn)	152
<b>Cyfanswm yr ymatebion</b>	<b>3,581</b>

Cafwyd sawl achos lle cyflwynodd yr un person fwy nag un ymateb. At ddibenion yr ystadegau yn yr adroddiad hwn, lle cafwyd nifer o ymatebion gan yr un ymatebydd, rydym wedi'u cyfrif fel un ymateb, gan gymryd y data o'r ymateb llawn fwyaf diweddar. Os dim ond ymatebion rhannol a ddaeth i law, cofnodwyd y data o'r ffurflen fwyaf cyflawn. Os dim ond rhai cwestiynau gafodd eu hateb, adlewyrchir hynny yn y tablau a'r siartiau. Er mwyn darparu cydbwysedd da rhwng cywirdeb a darllenadwyedd, mae canrannau yn y tablau wedi'u talgrynnu. Felly, efallai na fyddant yn adio hyd at 100.

### Unigolion a Grwpiau â Nodweddion Gwarchoddedig

Daeth nifer o ymatebion i law oddi wrth bobl anabl a'u cynrychiolwyr yn ogystal â chynrychiolwyr pobl hŷn, plant a phobl ifanc.

## Ymgyrchoedd, ymgyrchwyr ac ymatebion grŵp

Cawsom ymatebion gan nifer o ymgyrchoedd, gan gynnwys gan Gyrrff Anllywodraethol amgylcheddol (NGO), cynrychiolwyr gweithgynhyrchwyr/cynhyrchwyr, nifer o staff a chwsmeriaid Dŵr Cymru Welsh Water ac ymateb cyfunol gan aelodau'r Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraff (CIWM). Cawsom ymatebion hefyd gan ymgyrchwyr dros faterion penodol, megis misglwyfau di-blastig, a rannodd ganlyniadau eu harolygon eu hunain â ni.

Cyflwynodd rhai ymatebwyr, yn enwedig y rhai oedd yn cynrychioli gweithgynhyrchwyr neu'r rhai oedd yn darparu mewnbwn arbenigol, wybodaeth fanwl yn ymdrin â'r themâu yn yr ymgynghoriad ar ffurf traethawd. Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar iawn am yr ymatebion manwl hyn.

## Iaith yr ymateb

Roedd fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r ymgynghoriadau llawn a hawdd eu darllen ac roedd unigolion yn rhydd i ymateb yn eu dewis iaith. Derbyniwyd un ymateb yn y ddwy iaith. Rhannwyd yr ymatebion fel a ganlyn:

Saesneg	3,556
Cymraeg	25

## Ymatebion i'r ddogfen ymgynghori lawn

**Cwestiwn 1:** Ydych chi'n cefnogi ein cynnig i wahardd pob un o'r eitemau platig untro a restrir uchod? Os nad ydych chi, rhowch resymau gyda thystiolaeth i ategu hyn os oes modd.

C1				
	Ydw	Na	Heb ateb	Nifer ymatebion
<b>Ffyn cotwm plastig</b>	<b>3010</b> 88%	<b>95</b> 3%	<b>324</b> 9%	<b>3429</b>
<b>Platiau</b>	<b>2995</b> 87%	<b>103</b> 3%	<b>331</b> 10%	<b>3429</b>
<b>Cytleri</b>	<b>2993</b> 87%	<b>102</b> 3%	<b>334</b> 10%	<b>3429</b>
<b>Troellwyr diodydd</b>	<b>3062</b> 89%	<b>38</b> 1%	<b>329</b> 10%	<b>3429</b>
<b>Gwellt</b>	<b>2983</b> 87%	<b>113</b> 3%	<b>333</b> 10%	<b>3429</b>
<b>Ffyn balwnau</b>	<b>3063</b> 89%	<b>30</b> 1%	<b>336</b> 10%	<b>3429</b>
<b>Cwpanau wedi'u gwneud o EPS</b>	<b>3043</b> 89%	<b>44</b> 1%	<b>342</b> 10%	<b>3429</b>
<b>Cynwysyddion bwyd o EPS</b>	<b>3039</b> 89%	<b>58</b> 2%	<b>332</b> 10%	<b>3429</b>
<b>Cynhyrchion o blastig ocso-bioddiraddiadwy</b>	<b>2992</b> 87%	<b>80</b> 2%	<b>357</b> 10%	<b>3429</b>

*Mae'r cyfrifiadau uchod yn ganran o gyfanswm yr ymatebion i'r ymgynghoriad llawn (3,429)*

Mae'r tabl uchod yn dangos lefel aruthrol o gefnogaeth i wahardd yr holl eitemau plastig untro a restrir yn yr ymgynghoriad. Pan roddodd ymatebwyr reswm, sail pennaf y cytundeb rhyngddynt oedd pryderon ynghylch effeithiau amgylcheddol yr eitemau ar ôl iddynt gael eu taflu am fod plastig yn aros yn yr amgylchedd mor hir. Cyfeiriwyd hefyd at anhawster ailgylchu'r eitemau, a bod dewisiadau amgen fforddiadwy a chynaliadwy ar gael. Roedd nifer o ymatebwyr yn teimlo y dylent fod wedi'u hen wahardd a'u bod yn siomedig nad oedd camau eisoes wedi'u cymryd i'r perwyl hwnnw.

Cododd nifer fach o ymatebwyr eu pryderon ynghylch effeithiau negyddol posibl gwaharddiad. Dywedodd nifer o ymatebwyr, gan gynnwys y rhai yn y sectorau gweithgynhyrchu, y byd academaidd, NGOs amgylcheddol a sector y llywodraeth, fod angen astudiaethau dadansoddi cylch bywyd (LCA) i gefnogi hyn, er mwyn sicrhau na fyddai unrhyw ddewisiadau amgen yn cael mwy o effaith na'r plastig ar yr amgylchedd. Cyfeiriodd rhai hefyd at y ffaith fod plastig yn ysgafnach ac yn rhatach

na'r dewisiadau amgen cyffredin sydd ar gael, sy'n golygu ei fod yn cymharu â rhai deunyddiau amgen. Awgrymodd eraill y dylid cyhoeddi canllawiau i hysbysu gwerthwyr am ddewisiadau amgen addas.

Roedd ymatebwyr eraill, er eu bod yn hapus ar y cyfan gyda'r gwaharddiadau a awgrymwyd, yn codi pryderon am eitemau penodol, neu awgrymu y dylent fod ar gael drwy fecanwaith arall. Ceir trosolwg cryno o'r pryderon hyn isod a thrafodir rhai yn fanylach o dan y cwestiwn perthnasol.

### Gwellt

Ar gyfer gwellt, sail pennaf y pryderon oedd anaddasrwydd a/neu gost deunyddiau amgen neu wellt y gellir eu haildefnyddio. Er enghraifft, mae risg y bydd gwellt anystwyth wedi'u gwneud o fetel neu wydr yn anafu rhai pobl anabl a bod gwellt papur yn anaddas ar gyfer diodydd twym. Er bod rhai ymatebwyr yn gwrthwynebu unrhyw fath o waharddiad neu gyfyngiad ar wellt plastig untro, roedd eraill yn teimlo bod angen eithriadau. Cyfeiriwyd at y gofyn er enghraifft yn rheoliadau Lloegr i wellt fod ar gael mewn bwyty/caffi/tafarn ond bod rhaid gofyn amdanynt. Awgrymodd eraill y gallai gwellt fod ar gael drwy bresgripsiwn, neu eu gwerthu mewn fferyllfeydd yn unig. Gofynnodd un ymatebydd, gweithgynhyrchwr cynhyrchion gwasanaethau bwyd sy'n deillio o blanhigion ac y gellir eu compostio, i wellt a wnaed o ddeunydd y gellir ei gompostio gael ei eithrio o'r rheoliadau.

Tynnodd nifer o ymatebwyr ein sylw at yr eithriad ar gyfer gwellt meddygol a geir yng Nghyfarwydddeb Plastigau Untro'r Undeb Ewropeaidd a gofynnwyd am ddarpariaeth debyg yng Nghymru. Cododd nifer fach o ymatebwyr bryderon ynghylch cynnwys gwellt carton yn y cynigion a'r amser sydd ei angen er mwyn i weithgynhyrchwyr allu datblygu dewisiadau amgen, er bod eraill yn awgrymu bod atebion yn cael eu datblygu ac ar gael eisoes. Cyfeiriwyd yn benodol at yr anawsterau sy'n debygol o godi wrth ddarparu cartonau llaeth i ysgolion yng Nghymru.

### Cynwysyddion bwyd a chwpanau o Bolystyren wedi'i ehangu/anwthio

Tynnodd ymatebwyr o'r sector gweithgynhyrchu ein sylw at gynnydd diweddar yn y galw am gynhyrchion plastig untro mewn lleoliadau gofal iechyd o ganlyniad i bandemig COVID-19. Cyfeiriodd sawl ymatebydd yn benodol at y defnydd cynyddol o gynwysyddion bwyd a diod wedi'u gwneud bolystyren wedi'i ehangu (EPS) yn y GIG a'r costau ychwanegol posibl y byddai deunyddiau amgen yn eu golygu i'r sector hwn pe bai'r eitemau hyn yn cael eu gwahardd.

Mynegwyd pryderon hefyd ynghylch a oes risg i ddeunyddiau amgen beryglu bwyd neu ddiogelwch defnyddwyr ac awgrymwyd bod angen rhagor o ymchwil yn y maes. Byddai hynny'n cynnwys ystyried priodweddau thermol ac insiwleiddio EPS (sy'n gallu atal anaf rhag hylif twym) a'i gost gymharol rad o'i gymharu â deunyddiau amgen. Codwyd y pwynt olaf mewn perthynas â'r effaith ariannol bosibl ar fusnesau bwyd llai ac annibynnol neu eu cwsmeriaid.

## Platiau a chytleri

Fel gyda chynwysyddion bwyd a diod, cyfeiriwyd at y cynnydd a fu yn y defnydd o'r mathau hyn o eitemau plastig untro yn ystod pandemig COVID-19 fel rheswm dros beidio â'u gwahardd. Dywedodd grwpiau anabledd am yr effeithiau negyddol posibl ar unigolion a oedd yn dibynnu ar y mathau hyn o eitemau ar hyn o bryd.

## Cynhyrchion wedi'u gwneud o blastig oco-bioddiraddiadwy

Yn gyffredinol, roedd lefel uchel o gefnogaeth i gynnwys cynhyrchion wedi'u gwneud o'r deunydd hwn am fod pobl yn deall ei fod yn cyflymu'r broses o greu micro-blastigau. Fodd bynnag, roedd lleiafrif o ymatebwyr yn gwrthwynebu ei gynnwys. O'r rhain, roedd llawer wedi methu rhoi rheswm neu wedi dweud nad oeddent yn teimlo bod digon o dystiolaeth eu bod yn gwneud niwed yng Nghymru.

Awgrymodd nifer o ymatebwyr fod angen mwy o eglurhad o'r diffiniadau sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd i labelu cynhyrchion penodol, er enghraifft, oco-ddiraddadwy, compostadwy ac oco-bioddiraddiadwy, i helpu busnesau a defnyddwyr i wneud dewisiadau gwybodus. Er cysondeb, argymhellodd un ymatebydd ein bod yn dilyn diffiniadau Cyfarwyddeb Plastig Untro yr Undeb Ewropeaidd. Trafodir y pwyntiau hyn ymhellach o dan Gwestiwn 4, sy'n holi'n benodol am blastigau sy'n diraddio.

Defnyddiodd nifer o ymatebwyr y cwestiwn hwn i gynnig eitemau ychwanegol y gellid eu cynnwys yn y gwaharddiadau. Ystyrir y rhain yn yr ymatebion i Gwestiwn 12.

## **Dyfyniadau enghreifftiol**

*“Straws is tricky. Disabled and very ill people need straws and paper ones don't work in such circumstances whilst metal ones are hazardous and multiple use plastic ones are very difficult to clean properly. During my mum's recent and sadly terminal illness, we struggled to find straws for her to be able to drink.” **Dienw***

*“No mention of plastic drinks bottles, probably the biggest source of plastic in the environment.” **Greg Nuttgens***

*“I believe all of the above objects can either be made reusable, or made of a different material than plastic. Therefore I don't see any reason for them to exist as single use plastic items. I believe the slight increase in cost of alternative materials is worth it for the benefit of having reduced single use plastic in existence. I also believe that the increased demand for these alternatives following a single use plastic ban would result in increased innovation in production, and reduced prices through economies of scale.” **Dienw (Corff Anllywodraethol)***

*“Yes – we need to consider ‘environmental costs’ as ‘what would the cost be of attempting to remove this litter from our pipes, rivers and seas?’ And what has the cost already been so far? These costs have been passed on to the public as statutory bodies need to deal with clean up and absorb those costs through public funds. Much of our litter is picked up by volunteers – organised by NGOs like Keep Wales Tidy and Marine Conservation Society – or by council workers or by statutory*



*bodies like Dŵr Cymru. All of that energy and time could have been put towards other improvements in our environment and is instead spent on cleaning up. Businesses have been benefitting from the good nature of volunteers and not paying the real environmental price of their products.”* **Dienw (Corff Anllywodraethol)**

**Cwestiwn 2** - Ydych chi'n cytuno y bydd manteision amgylcheddol a chymdeithasol posibl ein cynigion yn gorbwyso'r effeithiau posibl ar bobl yng Nghymru? Rhowch resymau gyda thystiolaeth i ategu hyn os oes modd.

<b>C2</b>				
	<b>Heb ddweud Ydw na</b>			
	<b>Y</b>	<b>N</b>	<b>Nac Ydw</b>	<b>Heb ateb</b>
<b>Nifer</b>	<b>2757</b>	<b>59</b>	<b>76</b>	<b>537</b>
<b>Canran</b>	80%	2%	2%	16%
<i>Mae'r cyfrifiadau uchod yn ganran o gyfanswm yr ymatebion i'r ymgynghoriad llawn (3429)</i>				

Cafwyd cytundeb clir â'r rhagdybiaethau a wnaethom yn ein Hasesiad Effaith Rhagarweiniol y byddai'r rheoliadau'n helpu i gyfyngu ar effaith amgylcheddol y cynhyrchion hyn yng Nghymru ac y byddent yn dod â budd i gymdeithas gyfan. Awgrymodd nifer o ymatebwyr y byddai unrhyw anghyfleustra yn sgil y gwaharddiadau ond yn para am ychydig a byddai pobl yn addasu'n gyflym. Cyfeiriwyd yn aml at y tâl am fapiau siopa untro fel enghraifft o bolisi a arweiniodd at fanteision amgylcheddol hirdymor er gwaethaf anghyfleustra tymor byr i fanwerthwyr a'r cyhoedd. Barn eraill oedd y byddai'r anghyfleustra'n fach am fod dewisiadau amgen ar gael a bod angen y rheoliadau er lles y blaned.

Defnyddiodd rhai ymatebwyr y cwestiwn hwn i dynnu sylw at yr angen am fesurau wedi'u targedu i newid ymddygiad i helpu i leihau sbwriel, am y byddai pobl yn dal i daflu sbwriel waeth beth fo'r deunydd. Awgrymodd eraill fod angen gwella'r cyfleusterau ailgylchu mewn mannau cyhoeddus, yn enwedig mewn ardaloedd twristiaeth, er mwyn helpu i "ddal" mwy o ddeunydd pacio a chynhyrchion wrth fynd.

Holodd nifer fach o ymatebwyr a oes gan Gymru gyfran ddigon mawr o'r farchnad defnyddwyr fyd-eang i newid y ffordd y mae'r cynhyrchion hyn yn cael eu defnyddio a'u cynhyrchu. Mynegodd rhai eu pryder hefyd y byddai defnyddwyr Cymru'n talu mwy yn y pen draw pe bai gweithgynhyrchwyr a manwerthwyr yn pasio costau ymlaen drwy godi prisiau'r nwyddau yr oeddent yn eu gwerthu. Fodd bynnag, teimlai eraill y dylai Llywodraeth Cymru arwain y ffordd a gallai busnesau yng Nghymru sy'n gwneud cynhyrchion amlbro/mwy cynaliadwy elwa pe bai gwledydd eraill yn gosod gwaharddiadau tebyg. Byddai hyn yn ei dro yn creu swyddi i bobl yng Nghymru.

Mynegodd nifer o ymatebwyr yn y sector gweithgynhyrchu eu pryderon ynghylch effeithiau amgylcheddol posibl deunyddiau amgen pe na bai astudiaethau dadansoddi cylch bywyd priodol yn cael eu cynnal. Cyfeiriwyd at anawsterau ailgylchu cwpanau papur wedi'u leinio â phlastig (a nodwyd y gallent gymryd lle cwpanau EPS) a bod deunyddiau amgen yn gallu bod yn drymach neu'n fwy ynniddwys na phlastig (gan esgor ar ôl troed carbon uwch). Teimlwyd y dylid cynnal Aseidiadau Effaith Amgylcheddol ac Aseidiadau Cylch Bywyd llawn cyn argymhell dewisiadau amgen i'w cynhyrchu ar lefel ehangach.

Anogodd ymatebwyr eraill ni i fod yn ofalus wrth ddefnyddio deunyddiau amgen oherwydd y risg y gallent greu effeithiau amgylcheddol annisgwyl yn rhannau eraill y

gadwyn gyflenwi. Roedd rhai'n teimlo fod hyn yn arbennig o berthnasol o ystyried datganiad Llywodraeth Cymru ei bod yn Argyfwng Hinsawdd. Yn eu barn nhw, roedd yn hanfodol rhoi'r gorau'n llwyr i ddefnyddio deunydd pacio a chynhyrchion untro a defnyddio rhai aml dro yn eu lle fel rhan o symudiad ehangach at economi gylchol yng Nghymru, er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw effeithiau amgylcheddol posibl.

Er bod Cwestiwn 5 wedi'i gynnwys yn yr ymgynghoriad i helpu i ddeall effeithiau posibl pandemig COVID-19, dewisodd sawl ymatebydd gyfeirio at y mater hwn o dan y cwestiwn hwn. Roedd eu sylwadau'n ymwneud yn bennaf â phryderon am yr effeithiau economaidd posibl ar y sectorau gweithgynhyrchu, manwerthu a lletygarwch pe bai cynhyrchion amgen yn fwy costus a hithau eisoes yn gyfnod anodd. Nododd un ymatebydd nad oedd yr ansicrwydd yn y trafodaethau masnach â'r UE yn ystod yr ymgynghoriad wedi'i ystyried yn yr asesiad cychwynol o'r effeithiau.

### **Dyfyniadau enghreifftiol**

*"Many of these things are not difficult to do. Small changes can have a big impact. It's a tiny investment of time and effort when you consider what is at stake. We would therefore support a ban in the long term, subject to adequate transitional arrangements/a temporary exemption until alternative products can be developed by manufacturers. If there is a viable alternative to plastic straws, providers will use them, but any additional cost will need to be considered as part of the funding of the sector."* **Ymatebydd dienw o'r sector gofalu**

*"Any proposed legislation and regulation must ensure we avoid any unintended consequences and focus on all single use disposable items not just plastic ones. It would be sensible for the Welsh Government to actively incentivise the use of more durable, re-usable products (and packaging) or new formats for which a mainstream recycling solution already exists is simple to implement any necessary adaptations."* **SUEZ Recycling and Recovery UK Ltd**

*"If businesses took greater responsibility for the design of products to minimise the environmental impact, maximise recycling and encourage reuse there would be a greater balance in the responsibility for managing the plastic waste between manufacturers, retailers and local authorities. This could result in significant savings for local authorities which could then be directed towards other essential services. With a shift away from the use of some single use plastic the impact on local amenity of littered items is unlikely to change as litter will continue to be dropped and the costs to local authorities of clearing the littered items will remain unchanged. The longer term impact on the environment of these items which remain in the environment for a longer period could however be less, depending on the composition of the alternative product."* **Pwyllgor Cyngori Awdurdodau Lleol ar Ailgylchu (LARAC)**

*"We supports this initiative to reduce litter and waste generation and feels it aligns closely with the Wellbeing of Future Generations Act supporting a sustainable, healthier Wales and a global Wales. Furthermore, there is considerable evidence that plastic litter entering the aquatic and marine environment will break down and*

*eventually produce micro and nano plastic fragments, with the potential to adversely impact aquatic and marine organisms and enter food chains with potential for human consumption. Much more work is required to evaluate the effects of micro and nano plastics, particularly around their potential impact upon human health. Initiatives such as described in this consultation can help to reduce new plastics entering the environment and raise awareness of the issues around such wastes and litter. It is felt however that this should be part of a wider strategy to evaluate existing risks and look at ways of reducing other sources of plastic entering the environment.”* **Corff dienw o’r sector cyhoeddus**

**Cwestiwn 3:** Ydych chi'n cytuno â'n hasesiad o fanteision ac effeithiau posibl ein cynigion ar fusnesau, gan gynnwys gweithgynhyrchu, yng Nghymru? Rhowch resymau gyda thystiolaeth i ategu hyn os oes modd.

<b>C3</b>				
	<b>Y</b>	<b>N</b>	<b>Heb ddweud Ydw na</b>	
			<b>Nac Ydw</b>	<b>Heb ateb</b>
<b>Nifer</b>	<b>2580</b>	<b>72</b>	<b>54</b>	<b>723</b>
<b>Canran</b>	75%	2%	2%	21%
<i>Mae'r cyfrifiadau uchod yn ganran o gyfanswm yr ymatebion i'r ymgynghoriad llawn (3429)</i>				

Er bod llawer o gefnogaeth i elfen manteision economaidd ein Hasesiad Effaith Rhagarweiniol, roedd bron i 21% o'r ymatebwyr (723) wedi methu ateb y cwestiwn hwn, neu wedi awgrymu nad oeddent yn teimlo eu bod yn abl i gynnig sylw yr un ffordd na'r llall.

O'r rhai a ymatebodd yn gadarnhaol, credai'r rhan fwyaf fod y rheoliadau'n cynnig potensial i fusnesau Cymru fuddsoddi a chynhyrchu dewisiadau amgen yn lle'r cynhyrchion sy'n cael eu gwahardd. Yn ôl rhai, gallai hyn greu cyfleoedd gwaith lleol a helpu i gefnogi twf economi ehangach Cymru.

Rhybuddiodd nifer o ymatebwyr, yn enwedig y rheini o'r sectorau gweithgynhyrchu plastig a pheccynnu, fod datblygu atebion newydd ac arloesol yn aml yn gostus, yn enwedig os oedd angen buddsoddi llawer o arian i dalu am ymchwil ac i newid seilwaith. Cyfeiriwyd at gynhyrchu cartonau diod â gwellt atodedig fel cost sylweddol ychwanegol i fusnesau pe bai angen deunyddiau amgen. Awgrymodd ymatebwyr eraill y byddai angen help y Llywodraeth ar gyfer buddsoddiadau o'r fath neu reoliadau pellach i atal cynhyrchion rhatach rhag cael eu mewnfurio i Gymru.

Dywedodd rhai ymatebwyr eu bod yn poeni am gost amgylcheddol posibl y newid i weithgynhyrchu eitemau untro sydd wedi'u gwneud o ddeunyddiau gwahanol, fel papur neu blastig bioddiraddadwy. Mae posibilrwydd y gallai cost ynni cynhyrchu, cludo ac ailgylchu'r deunyddiau hyn fod yr un mor uchel neu'n uwch mewn ambell achos. Teimlwyd y byddai hyn yn groes i nod Llywodraeth Cymru o sefydlu economi gylchol a dylai'r cymorth ganolbwyntio yn lle hynny ar y cwmnïau hynny sy'n datblygu dewisiadau amgen y gellir eu hailddefnyddio.

Tynnodd nifer fach o ymatebwyr sylw at ddiffygion posibl yn y data a gyflwynwyd yn yr Aseiad Effaith Rhagarweiniol, yn benodol o ystyried yr effeithiau ehangach os na fyddai cwmnïau'n gallu addasu eu llinellau cynhyrchu. Soniodd eraill am yr angen am aseiad manwl pellach o eitemau penodol, er enghraifft gwellt. Holodd un ymatebydd a oedd yr effeithiau ar agweddau eraill yn y gadwyn gyflenwi wedi'u hystyried, gan gynnwys cyfanwerthwyr a mewnforyr.

Er bod cwestiwn penodol wedi'i gynnwys yn yr ymgynghoriad am effeithiau economaidd ehangach posibl pandemig COVID-19 (Cwestiwn 5), tynnodd sawl

ymatebydd ein sylw at yr angen i ystyried hyn wrth benderfynu pryd i gyflwyno'r rheoliadau.

Er mai prin oedd yr ymatebion gan fusnesau a oedd eisoes wedi newid eu ffordd o weithredu yng Nghymru, awgrymodd un ymatebydd (perchennog tafarn leol) ei fod wedi gorfod ysgwyddo costau ychwanegol wrth newid o wellt plastig i wellt papur. Ond roedd y costau hynny'n fach iawn ac nid oeddent wedi cael effaith negyddol ar ei fusnes.

Thema gyffredin a oedd yn dirwyn trwy'r holl sylwadau oedd y gred y byddai busnesau Cymru yn gallu addasu i'r rheoliadau ac arloesi cyn belled â bod y rheoliadau'n glir, yn gyson ac yn cael eu cyhoeddi o fewn amserlen resymol. Cyfeiriwyd eto at y tâl am fagiau siopa untro fel enghraifft i gefnogi'r farn hon.

### **Dyfyniadau enghreifftiol**

*"I have bought takeaway food in 'papier-mâché' and cardboard boxes without plastic linings why can't every take away food place use them. We have been told we are particularly good in wales at recycling, recycled rubbish should be made into other useful thing by local business in Wales e.g. why can't coffee grounds from coffee shops etc... be collected on mass and made into green fuel coffee logs for wood burners." **Dienw***

*"Wales could become a leader in Green Economic recovery if businesses and manufacturing embraced and adapted to these changes." **Dienw***

*"We have many innovative businesses in Wales, the move to find new sustainable products and end uses could prove lucrative for the manufacturing sector." **Laura Palmer***

*"Getting rid of the biggest problem means that the producers have to look at alternative solutions. Investment will have to be made into R&D and a commitment to follow through on more environmentally-sustainable solutions. Keeping the status-quo is not an option as the environment will continue to struggle and the wildlife will suffer." **Dienw***

*"Yes -There will be a massive new market for alternatives to single use plastic, which will encourage innovation and entrepreneurial action with Wales. I believe this should be co-incided with support to encourage new startups in the field, as well as aiding current single use plastics producers to switch to a more sustainable business model." **Phil Lansdown***

*"As identified in the consultation, there may be some minor costs (both to manufacturers/consumers and in terms of life cycle impacts), but these will be significantly outweighed by the social and environmental benefits. There remain many unanswered questions relating to the potential for unintended consequences (e.g. the impact on individual behaviour) when considered in terms of life cycle assessment (e.g. as has happened in relation to consumers switching from single use plastic bags to treating 'bags for life' as being disposable), but even in totality the life cycle impacts of the products proposed to be banned are relatively minor.*

*Consequently, as long as it is accepted that these measures are being taken because of issues such as littering and plastic pollution, potential negative LCA outcomes are not a great concern. Implementing these measures in Wales will send a clear and unambiguous signal to other administrations, and in doing so will drive innovation in the material design and manufacture of these items.”* **Ymchwilwyr i Fio-Borthiant a’r Fio-Economi, Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig, Prifysgol Aberystwyth**

**Cwestiwn 4:** A ddylai plastig oco-bioddiraddiadwy gael ei gynnwys ar restr yr eitemau i'w gwahardd? Rhwch dystiolaeth i ategu'r farn hon.

<b>C4</b>				
	<b>Heb ddweud Ydw na</b>			
	<b>Y</b>	<b>N</b>	<b>Nac Ydw</b>	<b>Heb ateb</b>
<b>Nifer</b>	<b>2390</b>	<b>147</b>	<b>42</b>	<b>850</b>
<b>Canran</b>	70%	4%	1%	25%
<i>Mae'r cyfrifiadau uchod yn ganran o gyfanswm yr ymatebion i'r ymgynghoriad llawn (3429)</i>				

Ni wnaeth 850 o ymatebwyr gynnig ateb i'r cwestiwn hwn. Fodd bynnag, dywedodd nifer o'r rheini a wnaeth ateb nad oeddent yn gwybod digon am y math hwn o blastig ac nad oeddent felly yn teimlo y gallent gynnig barn.

O'r rhai a ymatebodd, dywedodd y mwyafrif eu bod yn bryderus ynghylch y defnydd o blastigau sydd wedi'u gwneud i chwalu'n fân (micro-blastig) a'u heffaith bosibl ar fywyd dyfrol ac ecosystemau eraill am genedlaethau i ddod. Codwyd pryderon hefyd ynglŷn â'r risg y gallai'r micro-blastigau hyn ymuno â'r gadwyn fwyd a goblygiadau posibl hynny i iechyd pobl. Ni ddeallir effaith hynny'n llawn eto.

Roedd ymatebwyr o'r sector NGO amgylcheddol a'r byd academaidd yn cefnogi gwaharddiadau am eu bod yn credu bod ansicrwydd ynghylch ymddygiad deunyddiau o'r fath yn yr amgylchedd. Cyfeiriodd eraill at bapurau ymchwil a oedd yn dangos y niwed ychwanegol y mae adchwanegion a ddefnyddir mewn cynhyrchion sy'n oco-ddiraddio yn ei achosi, hynny heb sôn am y plastig ei hun. Nododd nifer o ymatebwyr na fyddai'r amser sydd ei angen i gynhyrchion o'r fath ddiraddio yn lleihau agweddau gweledol sbwriel a gallent yn wir annog mwy o bobl i daflu'u sbwriel pe baent yn ystyried bod cynhyrchion o'r fath yn "llai niweidiol" i'r amgylchedd.

Defnyddiodd nifer o ymatebwyr y cwestiwn hwn i dynnu sylw at y derminoleg gymhleth a dryslyd sy'n gysylltiedig â gwahanol fathau o blastig. Y teimlad oedd ei bod yn arwain at ddryswch ymhlith defnyddwyr a manwerthwyr. Awgrymodd rhai bod y dryswch hwn ynghylch tarddiad ac effaith amgylcheddol plastigau 'amgen' yn cael ei borthi'n fwriadol. Awgrymwyd mai canlyniad anfwriadol y dryswch hwn fyddai penderfyniadau prynu'n cael eu gwneud ar sail rhagdybiaethau cyfeiliornus, gan arwain at niwed amgylcheddol posibl.

Rhoddyd enghreifftiau o hyn, gan gynnwys y term 'bio-blastig' a ddefnyddir i ddisgrifio naill ai ddeunyddiau sy'n deillio o blanhigion, megis startsh corn, neu blastig sy'n 'bioddiraddio' o dan amodau penodol. Gall y 'diraddioldeb' hwn gwmpasu plastigau traddodiadol a phlastig sy'n deillio o blanhigion. Cyfeiriodd un ymatebwr, elusen amgylcheddol, at astudiaethau ac ymchwil academaidd a oedd wedi dangos bod deunyddiau a oedd yn bodloni'r diffiniad 'diraddiadwy' yn ôl safonau rhyngwladol wedi methu â chyrraedd y safonau hynny mewn profion o dan amodau amgylcheddol amrywiol.



O'r ymatebwyr a wrthwynebai'r gwaharddiad, roedd nifer am weld cymorth yn cael ei roi i gynhyrchion amgen er mwyn i rymoedd y farchnad allu newid defnydd. Roedd rhai ymatebwyr yn ansicr ynghylch effaith y cynhyrchion amgen hyn. Roedd nifer fach o'r farn bod plastigau ocso-ddiraddiadwy yn gam at wahardd pob plastig yn y pen draw.

Awgrymodd un ymatebydd fod angen gwahaniaethu rhwng plastigau 'ocso-ddiraddiadwy' ac 'ocso-bioddiraddiadwy'. Dywedodd nad oes unrhyw blastig yn cael ei werthu fel plastig 'ocso-ddiraddiadwy', term yw hwnnw sy'n disgrifio proses ddiraddio pob plastig (gweler y dyfyniad isod).

## Dyfyniadau enghreifftiol

*“The difference between oxo-biodegradable and compostable is really subtle. While compostable bags decompose completely, the oxo-biodegradable bags leave small particles behind as they decompose, and those particles can be problematic (often made from petroleum products). Ultimately, oxo-degradable plastics are worse than plastics themselves and in the long term will cause more harm to our environment than good. The small particles will be prevalent in our food chain at a much quicker rate and at a higher percentage than they already do, as they break down faster but never completely decompose.” **Dienw***

*“Currently the marketing world is rife with green-washing and mixed messaging surrounding the compostable or bio-degradable ability of bio-plastics. This needs to be stopped at the source by setting clearly defined parameters around how these products should be classified and advertised and communicating this to consumers and retailers effectively to ensure appropriate disposal. As oxo-plastics fit neither of these descriptions (compostable or bio-degradable, in line with biological processes), then they should be considered equally as harmful as single-use petrochemical plastics.” **Charlotte Rhodes***

*“Oxo-degradation” is defined by CEN (the European Standards authority) in TR15351 as “degradation identified as resulting from oxidative cleavage of macromolecules.” This describes ordinary plastics, which degrade by oxidation under the influence of light and heat in the open environment and create microplastics, but do not become biodegradable except over a very long period of time. Oxo-degradable (as distinct from oxo-biodegradable) plastic has been banned for good reason in Saudi Arabia, the UAE, and elsewhere for a wide range of everyday plastic products, and it should also be banned in Wales. Nobody makes plastic and sells it as “oxo-degradable” but this terminology is used by the Ellen MacArthur Foundation, the EU Commission, and others who are reluctant to acknowledge the difference between oxo-degradable and oxo-biodegradable plastic. “Oxo-biodegradation” is defined by CEN as “degradation resulting from oxidative and cell-mediated phenomena, either simultaneously or successively”. This means that the plastic degrades by oxidation until its molecular weight is low enough to be accessible to bacteria and fungi, who then recycle it back into nature by cell-mediated phenomena. It does not leave microplastics. Oxo-biodegradable plastics are tested according to ASTM D6954; BS 8472, PAS 9017 and similar Standards, which prescribe tests for biodegradation as well as abiotic degradation. They also include tests to ensure that there is no toxicity, and no prohibited metals or gel*

*content above the prescribed level. Plastic should not therefore be banned if it is proved to be oxo-biodegradable by tests performed according to these Standards.”*  
**Oxo-biodegradable Plastics Association**

*“The public do not understand the differences between plastics and the terms biodegradable, degradable and compostable. Industry plays on this naivety to ‘sell products’ which are perceived to be environmentally friendly when they are not. The evidence for this is on our high streets. Small businesses proudly use the oxo-degradable plastic bags and tell customers that they are bio-degradable. Industry does nothing to dispel this myth. There is no clear instruction on how to dispose of such items. Instead ‘degradable’ is used purposefully because the general public misconceive this to be an eco-friendly process.”* **Grŵp ymgyrchu dros leihau plastig dienw**

**Cwestiwn 5:** Ydych chi'n credu bod pandemig COVID-19 wedi arwain at newidiadau i'r farchnad na chawsant eu hystyried yn ein hymchwil ar hyn o bryd? Rhwch resymau gyda thystiolaeth i ategu hyn os oes modd.

<b>C5</b>				
	<b>Y</b>	<b>N</b>	<b>Heb ddweud Ydw na Nac Ydw</b>	<b>Heb ateb</b>
<b>Nifer</b>	<b>1478</b>	<b>971</b>	<b>39</b>	<b>941</b>
<b>Canran</b>	43%	28%	1%	27%
<i>Mae'r cyfrifiadau uchod yn ganran o gyfanswm yr ymatebion i'r ymgynghoriad llawn (3429)</i>				

Tynnodd nifer sylweddol o ymatebwyr ein sylw at y cynnydd yn y defnydd o blastig untro yn ystod pandemig COVID-19 a goblygiadau amgylcheddol posibl hynny. Pryder penodol oedd y cynnydd yn nifer y gorchuddion wyneb untro (mygydau a feisorau) a chynwysyddion bwyd tecawê, a'r olaf yn ganlyniad i fusnesau'n gorfod addasu i wahanol gyfyngiadau dros y pandemig. Roedd yr effeithiau anuniongyrchol eraill a nodwyd yn cynnwys y cynnydd mewn deunydd pacio wrth brynu ar-lein (nododd un Awdurdod Lleol y bu cynnydd amlwg mewn ailgylchu wrth ymyl y ffordd) a mwy o ddefnydd o fapiau siopa plastig untro gan archfarchnadoedd ar gyfer eu gwasanaethau 'cludo i'r tŷ'.

Er bod rhai ymatebwyr yn awgrymu bod y newidiadau hyn yn debygol o fod yn rhai tymor byr, mynegodd eraill bryder ynghylch effeithiau tymor hwy y newidiadau hyn a holi a oedd y pandemig wedi gwyrddroi'r duedd ddiweddar o blaid eitemau aml dro. Nododd ymatebwyr eraill fod risg y gallai cynhyrchion mwy "ecogyfeillgar" gael eu diystyru pe bai'r adferiad economaidd yn canolbwyntio'n llwyr ar gefnogi cwmnïau sy'n cynhyrchu eitemau plastig untro presennol. Awgrymodd nifer o ymatebwyr fod angen gwell canllawiau i ddangos i fusnesau bod modd defnyddio eitemau aml dro cyn belled â bod y mesurau hylendid priodol yn cael eu dilyn.

Dyweddodd cynrychiolwyr busnesau a'r sector gweithgynhyrchu fod pandemig COVID-19 wedi profi pwysigrwydd cynhyrchion plastig untro, gan nodi'r cynnydd yn y galw am gytleri untro a chynwysyddion bwyd a chwpanau EPS yn y GIG, mewn lleoliadau gofal cymdeithasol ac mewn ysgolion. Barnwyd bod eitemau o'r fath yn hanfodol i leihau'r perygl o drosglwyddo'r feirws gan iddynt leihau'r angen i drafod eitemau aml dro. Fodd bynnag, roedd ymatebwyr eraill yn anghytuno â honiadau o'r fath ac yn aml yn cyfeirio at gyhoeddiadau sy'n esbonio bod y feirws mewn gwirionedd yn goroesi'n hirach ar [arwynebau plastig](#) ac mai arferion hylendid da sy'n lleihau'r risg o drosglwyddo'r haint.

Dyweddodd ymatebwyr o'r sector gweithgynhyrchu plastig a deunydd pacio eu bod yn poeni hefyd ynghylch amseriad unrhyw waharddiad, gan nodi pe bai'n dal i fod yn bandemig adeg ei gyflwyno, mae'n debygol y gallai llawer o'r stoc fynd yn wastraff heb ei ddefnyddio.

Cawsom sawl ymateb i'r cwestiwn penodol hwn gan, neu ar ran plant a phobl ifanc. Roedd rhai o'r ymatebion hyn yn canolbwyntio ar effeithiau amgylcheddol cadarnhaol

y cyfnod clo cyntaf, ac ar y gostyngiad mewn sbwriel wrth i bobl aros gartref. Roedd ymatebwyr eraill yn rhannu teimladau tebyg, gan nodi bod y pandemig wedi gwneud iddynt ailasesu eu harferion siopa ac wedi codi eu hymwybyddiaeth amgylcheddol o'r difrod a achosir trwy defnyddio mwy nag sydd ei angen.

Er na wnaed unrhyw sylwadau penodol am ein Hasesiad Effaith Rhagarweiniol, awgrymodd rhai ymatebwyr y gall fod angen ei newid i adlewyrchu'r cynnydd diweddar yn y defnydd o rai o'r cynhyrchion a gynhwysir yn ein rheoliadau.

### **Dyfyniadau enghreifftiol**

*"I think that the positive environmental impacts that were evident during lock-downs in the UK and around the globe clearly shown the adverse effects we have on the planet. (cleaner air, disappearance of smogs etc.) It has made us reflect on the damage we do to the planet and strengthened the resolve to take action. It is an ideal opportunity for everyone, especially governments, to put pressure on manufacturing to come up with more sustainable products and a drive towards the circular economy."* **Dienw**

*"The use of single-use plastic masks and plastic antibacterial wipes needs to be considered. This has of course skyrocketed due to the pandemic, and yet the terrible effects on nature remain. A push needs to be made to encourage people to use reusable masks where possible (or to make these available to poorer people), and to ban plastic wipes. Biodegradable wipes and suitable alternatives should be made available."* **Dr Siriol McAvoy**

*"It's probably too early to know fully. They may be a perception that packaged items are safer as contents not open to manhandling. Lots of people are losing jobs - especially women- and may struggle with price increases if manufacturers seek to pass on the costs of turning to biodegradable products."* **Dienw**

*"Covid-19 presented an unprecedented demand for products which had been put on the back shelves awaiting legislation to ban. The demand for plastic straws for nursing homes, medical environments etc went through the roof, as has individually wrapped plastic cutlery packs. I agree that moving forward, these products need to go but at this stage in the pandemic, I believe more time needs to be given before the hopefully inevitable change."* **Dienw (Sector gweithgynhyrchu)**

*"Yes. The global pandemic has greatly brought the importance of hygiene and safety into sharp focus with an increased demand for disposable packaging and items considered by many of the public, retailers and others to reduce the risk of disease transmission. Many retailers believe reusable items put their serving teams at risk as unlike single use packaging there are no regulations governing their handling and use. The demand for EPS packaging, plastic plates and wrapped plastic cutlery has greatly increased. In addition to Covid impacts the legal requirements surrounding food safety should also be assessed."* **Dienw (Sector gweithgynhyrchu)**

**Cwestiwn 6:** Ydych chi'n cytuno â'r eithriadau rydym yn eu cynnig a sut y gallwn eu gwneud mor glir ac ymarferol â phosibl i'w cymhwyso? Rhowch resymau gyda thystiolaeth i ategu hyn os oes modd.

<b>C6</b>				
	<b>Y</b>	<b>N</b>	<b>Heb ddweud Ydw na</b>	
			<b>Nac Ydw</b>	<b>Heb ateb</b>
<b>Nifer</b>	<b>1927</b>	<b>308</b>	<b>42</b>	<b>1152</b>
<b>Canran</b>	56%	9%	1%	34%
<i>Mae'r cyfrifiadau uchod yn ganran o gyfanswm yr ymatebion i'r ymgynghoriad llawn (3429)</i>				

Roedd cefnogaeth gyffredinol i'r eithriadau yn y rheoliadau. Roedd yr ymatebwyr yn cytuno y byddai gwaharddiad ar wellt plastig untro yn golygu, yn achos y rhan fwyaf o bobl, y byddent yn penderfynu defnyddio mathau eraill o wellt fel rhai metel, papur, gwydr, silicôn, acrylig, pasta/reis, bambŵ, a deunyddiau bioddiraddiadwy eraill. Fodd bynnag, roedd nifer o'r ymatebwyr yn pryderu nad oedd mathau eraill o wellt yfed plastig untro yn addas i rannau o'r boblogaeth, yn enwedig pobl hŷn neu anabl, am nifer o resymau:

- Mae rhai grwpiau hŷn ac anabl yn dibynnu ar wellt plastig hyblyg i fwyta ac yfed yn ddiogel neu'n annibynnol, mewn amryw o leoliadau.
- Gallai rhai mathau o eitemau amgen, megis gwydr neu fetel, anafu rhai unigolion sydd â chyflyrau sy'n achosi cryndod a phyliau o sbasmau.
- Nid yw mathau eraill o wellt untro mor hyblyg/ymarferol â gwellt plastig ac o'r herwydd, nid ydynt yn debygol o fod yn eitem amgen addas ar gyfer pobl sy'n gaeth i'r gwely, pobl nad ydynt yn gallu eu symud eu hunain er mwyn yfed o gwpanau neu wyro eu pen yn ôl, pobl sydd â phroblemau o ran deheurwydd neu sydd â chyflyrau poenus.
- Gallai prynu gwellt wedi'u gwneud o ddeunyddiau eraill olygu costau ychwanegol i'r defnyddiwr.
- O werthu eitemau sy'n addas i'w haildefnyddio, byddai gofyn iddynt gael eu glanhau/sterileiddio bob tro y cânt eu defnyddio a byddai hynny'n anghyfleus i'r defnyddiwr.

Roedd rhai o'r ymatebwyr yn gwrthwynebu'r eithriadau. Prif sail y gwrthwynebiad oedd y farn bod dewisiadau amgen addas naill ai eisoes ar gael neu y byddent yn debygol o fod ar gael ar ôl i'r rheoliadau ddod i rym. Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylai Llywodraeth Cymru a busnesau sicrhau hyn drwy ganolbwyntio ar ddarparu dewisiadau amgen ecogyfeillgar i bobl sydd angen y cynhyrchion hyn. Barn ymatebwyr eraill oedd bod angen gwaharddiad llym rhag i'r eitemau hyn greu rhagor o ddifrod amgylcheddol.

Roedd ymatebwyr eraill yn poeni y byddai rhai gweithgynhyrchwyr a busnesau yn ystyried unrhyw eithriad fel "ffordd allan" bosibl o'u hymrwymiaidau cyfreithiol ac yn parhau i gynhyrchu'r eitemau gan danseilio'r nod o leihau'r defnydd ohonynt. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, awgrymodd rhai ymatebwyr pe bai eithriadau'n cael eu

cyflwyno, y dylai fod cyfyngiadau amser arnynt a'u hatgyfnerthu â mesurau gorfodi llym i sicrhau cydymffurfiaeth lawn.

O'r ymatebwyr hynny a oedd o blaid eithriadau, roedd y rhan fwyaf am weld cyn lleied ohonynt â phosibl, gyda lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol yn cael eu hystyried fel y ffocws mwyaf priodol. Fodd bynnag, roedd rhai ymatebwyr yn poeni ynghylch gwneud y rhestr yn 'rhy feddygol' gan y gallai hynny beri problemau posibl i bobl anabl. Holwyd hefyd a fyddai rhestr o'r fath yn gydnaws â'r [Model Cymdeithasol o Anabledd](#) y mae'r Senedd a Llywodraeth Cymru wedi'i fabwysiadu. Awgrymodd nifer o ymatebwyr y dylai unrhyw ganllawiau a chyhoeddiadau ategol roi esboniad digonol ynghylch pam mae angen i rai pobl ddefnyddio'r eitemau ar y rhestr rhag iddynt gael eu stigmatiddio neu eu haflonyddu am wneud. Gofynnodd un ymatebydd a fyddai angen i fusnesau wneud addasiadau rhesymol o hyd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 drwy gadw cyflenwad bach o wellt yfed plastig rhag ofn y gallai cwsmer anabl ofyn amdanynt.

Tynnodd nifer o Awdurdodau Lleol ein sylw at yr angen am ddiffiniadau clir yn y rheoliadau ac mewn unrhyw ganllawiau ategol i sicrhau eu bod yn cael eu gorfodi'n effeithiol. Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at amwysedd y derminoleg yn y ddogfen ymgynghori. Gofynnwyd hefyd am eglurder ynghylch sut y byddai'r cynigion a'r eithriadau'n cael eu cymhwyso i siopa ar-lein a nwyddau a fewnforir. Awgrymodd ymatebydd arall y dylid darparu unrhyw ganllawiau mewn ieithoedd eraill ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg oherwydd natur aml-genedlaethol y sectorau lletygarwch ac arlwyo. Ystyriwyd ei bod yn bwysig bod yn gyson â gweinyddiaethau eraill y DU hefyd er mwyn sicrhau bod cwsmeriaid yn deall pa eitemau oedd ar gael a sut y gellid cael gafael arnynt pe bai angen.

Rhoddodd nifer o ymatebwyr sylwadau penodol am y cwestiwn hwn gan gynnwys yr angen i ystyried yr effaith ar bobl ag alergeddau bwyd difrifol. Mynegodd un arall yr angen i ymgynghori ymhellach â'r sector iechyd a gwasanaethau cymdeithasol er mwyn sicrhau bod unrhyw ddewisiadau amgen yn ddiogel ac yn hylan i'w defnyddio yn y lleoliadau hynny.

### **Dyfyniadau enghreifftiol**

*"I don't agree with the exemptions, there are already many products made of alternatives materials and straws are included in this list. For example, your research says that straws are needed in the hospital and care homes, there are already biodegradable straws available commercially, why hospitals and care homes are not buying them? Because at the moment plastic is used everywhere and therefore is cheap. The laws of economics will work for the biodegradable products in the same way, as soon as the plastic is removed and the alternative products are allowed to flood the market the price of production and distribution will decrease."* **Dienw**

*"Where no suitable alternative exists and the need is clear, we support the exemptions listed. For example, paper straws may not be practicable to use to assist disabled or sick people to eat and drink. Presumably these straws would be provided via the NHS or social care. Metal straws or similar are currently available."* **Cyngor Tref Llandrindod**

*“We would welcome clarity on the exemptions for attached plastic straws – i.e. those used on cartons and pouches – as these may be used in different settings to standard ‘loose’ plastic straws. We believe there are likely to be grounds for to exempt plastic straws for medical enabling and other specialist uses from any sales bans or restrictions. Consumers who would require a straw for medical or other specialist purpose should have easy access to these in all catering establishments. We also request clarity on exemptions for the use of attached plastic straws by children in schools and nurseries. How such exemptions are operated in practice would be best informed by the views and experience of the service sector, which would be most informed to provide a response.”* **British Soft Drinks Association**

*“As set out in the response to question one in line with recent legislation for England we support an exemption of the ban for those with medical needs, however, in order not to stigmatise those with disabilities and in order not to leave it to hospitality serving staff to make decisions on whether a customer is ‘deserving’ of a plastic straw, they should be made available to anyone on request. This would be on the condition straws are stored behind the counter not in public view no visual reference to their availability on public display. Guidance notes in English, Welsh and multiple languages to reflect the multi-national nature of the hospitality sector should be published. The latter because English language skills vary among operators within the various cuisines.”* **Dienw**

*“Any exemptions for bans are problematic as it doesn’t not promote a clear message. However, we understand the concerns that some members of the disabled community have with the proposed ban on plastic straws and recognise the reliance that some people with mobility issues have on the use of these items. Whilst supporting the exemption, we would also not want this to be used as a ‘loophole’ for manufacturers and retailers. We therefore propose that the Welsh Government adopt stringent and clear guidance for these exemptions and would recommend that these only be applicable to hospitals, registered care homes and registered care agencies.”* **Cyswilt Amgylchedd Cymru**

**Cwestiwn 7:** A ddylem ystyried unrhyw eithriadau eraill mewn perthynas â'r holl eitemau plastig untro sy'n rhan o'n cynnig?

<b>C7</b>				
	<b>Dylem</b>	<b>Na</b>	<b>Heb Ateb</b>	<b>Nifer ymatebion</b>
<b>Ffyn cotwm plastig</b>	<b>426</b> 12%	<b>1599</b> 47%	<b>1404</b> 41%	<b>3429</b>
<b>Platiau</b>	<b>435</b> 13%	<b>1585</b> 46%	<b>1409</b> 41%	<b>3429</b>
<b>Cytleri</b>	<b>422</b> 12%	<b>1590</b> 46%	<b>1417</b> 41%	<b>3429</b>
<b>Troellwyr diodydd</b>	<b>393</b> 11%	<b>1617</b> 47%	<b>1419</b> 41%	<b>3429</b>
<b>Gwellt</b>	<b>472</b> 14%	<b>1546</b> 45%	<b>1411</b> 41%	<b>3429</b>
<b>Ffyn balwnau</b>	<b>390</b> 11%	<b>1616</b> 47%	<b>1423</b> 41%	<b>3429</b>
<b>Cwpanau wedi'u gwneud o EPS</b>	<b>397</b> 12%	<b>1614</b> 47%	<b>1418</b> 41%	<b>3429</b>
<b>Cynwysyddion bwyd o EPS</b>	<b>407</b> 12%	<b>1603</b> 47%	<b>1419</b> 41%	<b>3429</b>
<b>Cynhyrchion o blastig ocso-ddiraddadwy</b>	<b>431</b> 13%	<b>1563</b> 46%	<b>1435</b> 42%	<b>3429</b>
<i>Mae'r cyfrifiadau uchod yn ganran o gyfanswm yr ymatebion i'r ymgynghoriad llawn (3429)</i>				

Roedd nifer o'r ymatebion i'r cwestiwn hwn yn trafod materion tebyg i'r rheini yng Nghwestiwn 6. Er enghraifft, roedd yr ymatebwyr naill ai yn gwrthwynebu eithriadau'n llwyr neu'n eu cefnogi at ddibenion iechyd a gofal cymdeithasol.

Ychydig iawn o ymatebwyr a awgrymodd eithriadau eraill heblaw'r rheini a drafodwyd ar gyfer gwellt plastig untro yng Nghwestiwn 6. Fodd bynnag, awgrymodd rhai grwpiau anabledd y dylid darparu eithriadau ar gyfer y rhan fwyaf o'r eitemau a restrir yn ein cynigion o ystyried eu goblygiadau posibl i'w bywyd pob dydd.

Roedd y syniadau ychwanegol a gynigiwyd yn ymdrin yn bennaf â chynwysyddion bwyd yn ogystal â chwpanau EPS a ffyn cotwm. I'r cyntaf, y sector gweithgynhyrchu a pheccynnu bwyd oedd fwyaf cefnogol i eithriadau, gan awgrymu y dylid cynnig moratoriwm dwy flynedd o leiaf er mwyn i fusnesau bach (er enghraifft y sector pysgod a sglodion annibynnol) allu addasu a lleihau unrhyw effaith economaidd bosibl yn ystod cyfnod anodd. Rhoddodd y sector hwn enghraifft hefyd o gynhyrchydd hufen iâ arbenigol o Gymru y gallai ein cynigion effeithio arno.



Awgrymodd ymatebydd arall bod blychau a chwpanau EPS a ddefnyddir i fwydo pobl ddigartref yn cael eu heithrio.

Roedd un cwmni yn poeni ynghylch yr anhawster y gallai rhai busnesau ei gael wrth i staff ddod â'u cynwysyddion diodydd aml dro i'r gwaith (oherwydd diffyg llefydd i'w cadw) neu lle ceir dibyniaeth ar gwpanau untro (er enghraifft, lleoliadau gofal iechyd). Awgrymwyd na fyddai'r cwpanau hyn yn debygol o gael eu taflu'n sbwriel ac y dylent felly gael eu heithrio.

Gofynnodd ymatebwyr eraill am eithriadau ar gyfer deunyddiau plastig penodol y mae modd eu compostio, er enghraifft, polymerau biolegol a chompostiadwy. Cyfeiriwyd at wledydd eraill yn Ewrop a'u cynigion o dan Gyfarwydddeb Plastigau Untro'r UE. Er enghraifft, nodwyd nad oedd Llywodraeth yr Eidal yn bwriadu gwahardd deunyddiau plastig y gellir eu compostio a'i bod yn caniatáu eu defnyddio mewn rhai sefyllfaoedd, megis mewn digwyddiadau, lle gallai'r dull casglu sicrhau eu bod yn cael eu hailgylchu.

Roedd cefnogaeth gref hefyd i eithrio ffyn cotwm, yn bennaf am resymau meddygol. Fodd bynnag, cydnabuwyd bod ffyn cotwm papur eisoes ar y farchnad ac y gellid eu mabwysiadu'n hawdd fel dewis amgen yn y rhan fwyaf o sefyllfaoedd.

### **Dyfyniadau enghreifftiol**

*“Non plastic solutions exist for all of the above. Our green spaces are reducing at an alarming rate and wildlife has to get a break. We are increasingly aware of the dangers to our planet, let Wales be brave and demand that manufacturers have environmental and conservation principles are the forefront.” **Dienw***

*“There should be no exemptions. Perhaps temporarily, whilst alternatives are made more readily available (such as encouraging new businesses in Wales to make these items), but eventually (and as soon as possible!) all these single use items (and more!) should be banned in Wales.” **Julia Ziomek***

*“COVID -19 has introduced a new dynamic to the requirements surrounding single use items. Whereas straws and their medical exemptions have been outlined in the consultation document - there are other areas where this could also be required i.e. for food and drink distribution in light of cross contamination of viruses such as COVID-19. Clear guidance is needed with regards to suitable alternatives for such items to ensure they meet relevant requirements and can easily be disposed of in a correct means to not negatively effect the environment.” **Cyngor Sir Penfro***

*“There are plenty of better, biodegradable materials that can be used for these things. Items made from cornstarch, mushroom, hemp and seaweed are all strong and environmentally friendly materials.” **Carys Griffiths***

**Cwestiwn 8:** Ydych chi'n cytuno bod yr amserlen arfaethedig ar gyfer gweithredu'r gwaharddiadau yn rhoi digon o amser i fusnesau o bob math addasu? Rhowch resymau gyda thystiolaeth i ategu hyn os oes modd.

<b>C8</b>				
	<b>Y</b>	<b>N</b>	<b>Heb ddweud Ydw na Nac Ydw</b>	<b>Heb ateb</b>
<b>Nifer</b>	<b>2079</b>	<b>201</b>	<b>50</b>	<b>1099</b>
<b>Canran</b>	61%	6%	1%	32%
<i>Mae'r cyfrifiadau uchod yn ganran o gyfanswm yr ymatebion i'r ymgynghoriad llawn (3429)</i>				

Roedd mwyafrif llethol yr ymatebwyr o blaid yr amserlen a gynigiwyd yn wreiddiol ac yn cefnogi cyflwyno deddfwriaeth erbyn hydref 2021. Fodd bynnag, roedd nifer fach yn gwrthwynebu, gyda rhai'n dadlau bod angen gweithredu ar unwaith ac eraill yn awgrymu bod angen mwy o amser i fusnesau allu addasu. O ran y cyntaf, mynegwyd pryderon ynghylch yr oedi parhaus canfyddedig wrth weithredu ac y byddai'r difrod amgylcheddol sy'n gysylltiedig â gollwng yr eitemau hyn yn parhau drwy aros tan hydref 2021. Mynegwyd y safbwyntiau hyn yn bennaf gan aelodau o'r cyhoedd a chymdeithasau amgylcheddol fel Surfers Against Sewage.

O'r rhai a deimlai fod yr amserlen yn annigonol, nododd nifer effaith COVID-19 ar fusnesau ac yn arbennig y ddibyniaeth bresennol ar ddeunydd pacio bwyd tecawê. Yn benodol, roedd pryderon am y bobl sydd wedi crynhoi'r eitemau hyn dros y cyfnod hwn a bod risg y byddant wedyn yn eu taflu pan ddaw'r gwaharddiad i rym. I ddatrys hyn, awgrymodd y Gymdeithas Siopau Cyfleustra bod angen cyfnod pontio o 12 mis i fusnesau allu gwerthu'r stoc sy'n weddill. Roedd nifer o gwmnïau gweithgynhyrchu bwyd a diod yn cefnogi'r farn hon, gan nodi y gallai fod angen mwy na 12 mis yn aml i gael hyd i ddeunydd pacio amgen a'i dreialu. Roedd y rhai a gododd y pryderon hyn yn ystyried bod cyfathrebu â'r sector am ein bwriadau a pha eitemau fyddai'n cael eu gwahardd yn hanfodol.

Roedd nifer o'r ymatebion a ddaeth i law yn rhan o ymgyrch gan y diwydiant plastigau i nodi'r angen am eithriadau neu am fwy o amser i gydymffurfio ar siopau cebab a physgod a sglodion annibynnol. Awgrymwyd bod y pandemig wedi effeithio'n ddifrifol ar y busnesau hyn ac na fyddent yn gallu wynebu rhagor o ofynion a chostau ar hyn o bryd. Fodd bynnag, roedd ymatebwyr eraill yn anghytuno gan ddadlau bod parhau i ddefnyddio plastigau untro yn rhoi pwysau annerbyniol ar yr amgylchedd a bod dewisiadau amgen aml dro yn ddiogel i'w defnyddio.

O ran gwellt mewn cartonau, tynnodd nifer o weithgynhyrchwyr a'r diwydiant bwyd a diod sylw at y ffaith eu bod eisoes wedi datblygu gwellt papur ar gyfer diodydd carton sydd naill ai ar y gweill neu eisoes yn cael eu cynhyrchu. Nid oedd yr ymatebwyr hyn yn teimlo bod cael gweddill y farchnad i addasu o fewn yr amserlen yn broblem. Fodd bynnag, awgrymodd eraill y gallai gwrthio'r amserlen ormod arwain at ddefnyddio opsiynau plastig trymach, fel poteli plastig. Fel y trafodwyd o dan Gwestiwn 1, codwyd mater yr amserlen fel pryder penodol mewn perthynas â gwellt

mewn cartonau ar gyfer llaeth ysgol. Nododd nifer o ymatebwyr hefyd fod deddfwriaeth i gyfyngu ar werthu gwellt yn Lloegr i fod cael ei chyflwyno adeg yr ymgynghoriad hwn ac y byddai hynny'n debygol o sbarduno newid ehangach yn y diwydiant.

Mynegodd ymatebwyr o bob rhan o'r sector pecynnu a gweithgynhyrchu eu hamheuon ynghylch a fyddai'r gwaharddiadau ar eu pen eu hunain yn mynd i'r afael â phroblem sbwriel a bod angen mesurau ym meysydd addysg, gorfodi a chosbi hefyd.

### **Dyfyniadau enghreifftiol**

*“I realise businesses need time to adjust and find alternative methods but unless they are pushed this will be a slow process. It needs to be driven by government and we need to have a massive push to make a better world now before it's too late. It's never too early to start. Businesses should be made to accept the social and moral implications of selling products that are harmful to the environment and every living thing on this planet and for too long this has not been the case. The sugar tax has recently been introduced to force companies to face this and it's about time businesses were forced to change and acknowledge the harm they are doing to the environment with their products and waste.” **Dienw***

*“You obviously need to allow a bit of time to implement these measures, but the sooner it's done the better.” **Greenpeace Abertawe***

## Cwestiwn 9: Ydych chi'n cytuno â'r defnydd arfaethedig o Gosbau Sifil?

C9				
	Heb ddweud Ydw na			
	Y	N	Nac Ydw	Heb ateb
<b>Nifer</b>	<b>2103</b>	<b>104</b>	<b>37</b>	<b>1185</b>
<b>Canran</b>	61%	3%	1%	35%
<i>Mae'r cyfrifiadau uchod yn ganran o gyfanswm yr ymatebion i'r ymgynghoriad llawn (3429)</i>				

Roedd ymatebwyr yn glir eu cefnogaeth i ddefnyddio Cosbau Sifil, gyda llawer yn cytuno y byddai'n ymateb cymesur i unrhyw achosion o dorri'r rheoliadau. Nodwyd bod mesurau tebyg wedi'u defnyddio i orfodi rheoliadau amgylcheddol eraill fel y tâl am fagiau siopa untro a'r gwaharddiad aricrobelenni. Nododd un ymatebydd y byddai defnyddio'r llysoedd sifil yn helpu i leihau'r baich sydd eisoes ar lysoedd ynadon a llysoedd y Goron. Fodd bynnag, roedd rhai'n teimlo y byddai cosbau sifil yn ddull rhy ysgafn a bod angen sancsiynau troseddol/dirwyon mawr i sicrhau cydymffurfiaeth.

Roedd nifer o ymatebwyr yn croesawu ein cynnig bod cyrff gorfodi'n gweithio'n agos â manwerthwyr i wella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r rheoliadau cyn bod angen cymryd camau gorfodi. Awgrymwyd y byddai darparu canllawiau yn helpu manwerthwyr i allu dewis yn ddoeth wrth ystyried opsiynau amgen. Roedd ymatebwyr eraill yn teimlo bod angen hyn hefyd er mwyn i'r cyhoedd helpu i newid ymddygiad defnyddwyr oddi wrth gynnyrch untro ac at gynnyrch amldro.

Tynnodd rhai ymatebwyr ein sylw at oblygiadau posibl y camau gorfodi hyn i adnoddau a'u heffaith debygol ar fonitro cydymffurfiaeth. Roedd hyn yn bryder penodol i Awdurdodau Lleol. Teimlwyd y byddai angen cyllid a/neu ganllawiau ychwanegol i fynd i'r afael â'r mater hwn.

Ni fynegwyd unrhyw farn ar y math o system cosbi sifil y dylid ei gyflwyno, ond roedd teimlad cyffredinol y dylai unrhyw gosbau fod yn hyblyg yn hytrach na bod yn haearnidd. Teimlwyd y byddai hyn yn sicrhau tegwch rhwng busnesau bach a rhai mwy a byddai defnyddio graddfa gynyddol yn annog busnesau i gydymffurfio yn hytrach nag anwybyddu'r rheoliadau.

Awgrymodd ymatebwyr hefyd y dylid ond defnyddio dirwyon neu gosbau at ddibenion amgylcheddol, i atal llygredd neu i gasglu sbwriel yn hytrach nag fel incwm i'r llywodraeth.

### Dyfyniadau enghreifftiol

*"For businesses to change we need a reward scheme or grants that make alternative methods a more attractive option. Mass producers of plastics and pollutants should be penalised through heavier taxing etc.."* **Dienw**

*‘Businesses will generally not comply if it is likely to cost them money, or if they think it likely. Enforcement is the only way forward. See your own example of the reduction of the usage of plastic bags.’* **Jan Underwood**

*“If a ban were imposed there would be a need for a deterrent for breaches. Practicality of enforcement and imposition of Civil Sanctions may render the ban unenforceable, especially in light of other pressures on enforcement staff in local authorities for the foreseeable future.”* **Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**

*“Yes, we agree with the proposed use of Civil Sanctions subject to regular reviews as to their effectiveness and with a commitment to changing the sanctions to more effective ones if the proposed ones are proven not to be effective.”* **Cyfeillion y Ddaear Cymru**

*“I would like to say no, but... If sufficient support is given- including financial- to Wales businesses, there will be less resistance to supplying replacement products. However, it is likely the case that most single use plastics are coming into Wales, rather than being made here. So organisations supplying the single use stuff to consumers will likely be trying hard to resist the change.”* **Dienw**

*“Yes, and enforcement should use whatever methods are deemed appropriate by the enforcement unit (for example, annual audits/compliance checks). We suggest aligning sanctions and enforcement with the corresponding bans in England, as far as practicable, so that it is easier to understand and comply with for both businesses and consumers. Clear guidance should also be provided to businesses across the supply chain well in advance of the onset on any ban.”* **British Soft Drinks Association**

## Cwestiwn 10: Ydych chi'n cytuno y dylai awdurdodau lleol orfodi'r gwaharddiad?

C10				
	Heb ddweud Ydw na			
	Y	N	Nac Ydw	Heb ateb
<b>Nifer</b>	<b>2160</b>	<b>131</b>	<b>32</b>	<b>1106</b>
<b>Canran</b>	63%	4%	1%	32%
<i>Mae'r cyfrifiadau uchod yn ganran o gyfanswm yr ymatebion i'r ymgynghoriad llawn (3429)</i>				

Roedd cefnogaeth eang i'r cynnig hwn, gydag ymatebwyr yn cydnabod bod gan swyddogion Awdurdodau Lleol sy'n gorfodi'r mathau hyn o reoliadau brofiad ac arbenigedd eang. Fodd bynnag, roedd y gefnogaeth honno'n amodol yn aml gyda rhai'n poeni am y pwysau tebygol y byddai'r dyletswyddau monitro ac arolygu ychwanegol hyn yn eu rhoi ar adnoddau presennol awdurdodau lleol, yn enwedig yng ngoleuni pandemig COVID-19. Er mwyn helpu i ddatrys hyn, cafwyd nifer yn gofyn am roi rhagor o gyllid ac adnoddau i Awdurdodau Lleol. Awgrymodd rhai ymatebwyr hefyd y dylid cael rhoi'r galluoedd gorfodi i eraill er mwyn helpu i leddfu'r baich, ond roedd ymatebwyr eraill yn gofyn am ymgyrchoedd addysg gyhoeddus a gwybodaeth i gefnogi'r rheoliadau.

Roedd ymatebydd arall o blaid defnyddio grwpiau cymunedol i weithio ochr yn ochr â manwerthwyr i helpu gwerthwyr i ddod o hyd i gynhyrchion amgen addas.

Mynegwyd pryderon eraill hefyd, gan gynnwys y potensial am anghysondeb rhwng Awdurdodau Lleol o ran sut i orfodi'r rheoliadau ac argymhellodd nifer fach o ymatebwyr fod angen gorfodi'r gwaharddiad ar lefel Cymru gyfan.

### Dyfyniadau enghreifftiol

*"However I do want to see an actual enforcement strategy with actual results. Litter fines already exist but with very little actual enforcement they do not work as a deterrent evidenced by the large amount of litter in Wales. So if local authorities are responsible for enforcement, the enforcement needs to actually happen. I would also want to see this combined with an education campaign promoting anti littering and minimising usage of plastic."* **Dienw**

*"Yes, we agree. It is important that Local Authorities do not suffer financially through any extra responsibilities however, so it is important that they receive financial help in order to provide the most effective service possible. We recommend the Welsh Government introduce a Latte Levy on single use cups in Wales and use some of this money to pay for other waste reduction and minimisation initiatives such as enforcing these bans."* **Cyfeillion y Ddaear Cymru**

*"There is an expectation within the consultation document that local authorities will carry out the enforcement role 'given their experience enforcing broadly similar, existing requirements' and however there is no reference to the resources required to undertake this role. This is possible however with stretched resources across LA's*

*in Wales consideration needs to be given to resource capacity not just experience. Assurance is required to ensure there this is adequate resources/funding to ensure the capacity to undertake what is an already stretched resource. Further information is also required surrounding the method and point of enforcement i.e. manufacture, sale or distribution. Consideration also needs to be given to the monitoring of new "green" products - compostable/ biodegradable containers are an area where we have seen recent innovation but without the evidence to support the recyclable claims from an "easily recyclable" perspective - this may be an area which is supported through Extended Producer Responsibility (EPR). The consultation document also makes no reference to how this would be undertaken - is this at the point of manufacturer or point of sale? Many of these products are manufactured outside the UK and the number of outlets at which these 9 products are sold or used is significant and this would need to be covered in the legislation and guidance associated with the ban." **Cyngor Sir Penfro***

*"LARAC agree Local Authorities should enforce the ban which would be consistent with similar interventions in Wales and the SUP plastic ban for England. Local Authorities must be appropriately resourced to deliver against this additional burden." **Pwyllgor Cyngori Awdurdodau Lleol ar Ailgylchu (LARAC)***

**Cwestiwn 11:** A ddylid cynnwys weips mewn cynigion ar gyfer gwaharddiadau pellach yn y dyfodol neu a ddylid cyflwyno mesurau eraill i fynd i'r afael â nhw, er enghraifft Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr? Rhowch resymau gyda thystiolaeth i ategu hyn os oes modd.

C11				
	Dylid	Na	Heb ddweud Dylid na Na	Heb ateb
<b>Nifer</b>	<b>2166</b>	<b>161</b>	<b>46</b>	<b>1056</b>
<b>Canran</b>	63%	5%	1%	31%
<i>Mae'r cyfrifiadau uchod yn ganran o gyfanswm yr ymatebion i'r ymgynghoriad llawn (3429)</i>				

Roedd cefnogaeth gref iawn o blaid cynnwys weips yn ein cynigion ac er bod y safbwyntiau'n amrywio o ran yr amseru, awgrymodd nifer fawr y dylid eu cynnwys yng nghanam cynta'r broses. Awgrymodd rhai ymatebwyr fod angen agwedd fwy cynnil mewn cysylltiad â weips, gyda rheoliadau'n targedu'r rheini sy'n cael eu hysbysebu fel rhai y "gellid eu fflycio" ond nad oeddent yn biddiraddio fel papur tŷ bach. Roedd nifer o ymatebion ar ffurf ymgyrch gan Dŵr Cymru Welsh Water yn cefnogi'r defnydd o'r label "fine-to-flush" er bod aelodau grwpiau amgylcheddol ac eraill yn awgrymu y gallai fod angen mesurau eraill hefyd.

Roedd galw cryf o blaid caniatáu defnyddio weips at ddibenion hylendid, gan gyfeirio'n benodol at eu pwysigrwydd i rai pobl anabl a phobl hŷn yn ogystal â phobl sy'n gofalu am fabanod neu blant ifanc. Eglurodd un gwneuthurwr sy'n cynhyrchu weips arbenigol ar gyfer lleoliadau gofal iechyd fod y deunyddiau a ddefnyddir yn cael eu dewis am eu nodweddion unigryw, gyda mathau penodol o weips wedi'u cynllunio at ddiben glanhau neu ddiheintio penodol. Cyfeiriodd at ymchwil sy'n profi y gallai newid i ddefnyddio deunyddiau naturiol leihau effeithiolrwydd a rhestrodd y dibenion arbenigol y dylid eu heithrio rhag unrhyw waharddiad. Dywedodd fod mwy o reolaeth ar y modd y ceir gwared ar weips yn y lleoliadau hyn nag mewn sefyllfaedd domestig.

Codwyd pryderon cyffredinol gan ymatebwyr ynghylch y cynnydd a fu yn y defnydd o weips yn ystod pandemig COVID-19 a sut yr oedd pobl yn cael gwared arnynt. O ystyried hyn, awgrymodd rhai ymatebwyr strategaethau eraill yn lle gwaharddiad, er mwyn gallu parhau i werthu weips. Er enghraifft:

- Cynllun Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr Estynedig (EPR) ar gyfer weips;
- Treth ar gynhyrchwyr ar gyfer pob weip a gynhyrchir gan neilltuo'r incwm i ddelio â phroblemau yn y system dŵr gwastraff (tebyg i EPR);
- Mwy o addysg a labeli clir sy'n dweud na ddylai'r weips gael eu fflycio;
- Rheoliadau a safonau gwell, gan wahardd yr ymadrodd 'flushable';
- Newid i weips di-blastig e.e. weips bambŵ neu glytiau y gellir eu golchi, lle bo hynny'n bosibl; a
- caniatáu gwerthu weips sy'n gallu bioddiraddio o fewn terfynau amser penodol.



## Dyfyniadau enghreifftiol

*“Unless a demand is created for non-plastic containing wet wipes and other disposable items then companies cannot be expected to make them. Such wholesale changes need to come in a top down approach, as many consumers are not aware of the issue, in a position to change or, sadly, care enough to do so. Responsibilities need to be placed on everyone, especially those with the power to make real change such as government and local authorities to set the example and drive change. As an ecologist, I am constantly asked to prove that I practice in my personal life what I preach in my professional life and it is only because I am able to show this that my advice is taken more seriously. I expect my government to do the same and lead the way for others to follow.”* **Samantha Shove**

*“Wet wipes should be banned now and not sold. Most on the ingredients in a wet wipe are plastic. I've used them extensively over the years but I'm making a conscious effort not to use them anymore. I don't believe wet wipe manufacturers communicate that wet wipes are made from plastic on their packaging and only communicate the ingredients that are on the wipe, i.e. the cleaning agent.”* **Dienw**

*“What is critical is that whatever action is agreed, it is applied swiftly, and monitored for its effectiveness to ensure it is adequate and effective at protecting the environment. In the year 2018-19 in Dŵr Cymru's operational area alone, there were 21,979 sewer blockages, these blockages caused 250 internal flooding events and 4162 external flooding Events, data collected by [Dŵr Cymru and Water UK study on Sewer Abuse](#). The cause of the blockages was overwhelmingly what we refer to as 'sewer misuse'. Misuse includes improper fat, oil and grease disposal, but we note that more than 30% of blockages have wet wipes as their primary cause. It is also noteworthy that the majority of all blockages have wet wipes as a component, banning their use or having a progressive levy would dramatically reduce the number of blockage and impact on customers. This would reduce flooding events and all the pollution and misery caused by wet wipe blockages.”* **Dŵr Cymru/Welsh Water**

*“Not all wet wipes are composed of “plastic” materials or synthetic polymers. Some wet wipes do contain natural polymers such as cotton, viscose, lyocell and wood pulp. Some wipes are blends of synthetic and natural polymers. The vast majority of healthcare wipes that GAMA Healthcare supply are blends of synthetic and natural polymers. The non-woven wipe substrates have been designed and engineered for specific cleaning and disinfection tasks. Wipes made of entirely natural fibres can interfere with the action of disinfectants, allowing microorganisms to survive. Instead, synthetic fibres reduce active agent adsorption from the disinfectant solution”*  
*([Efficacy of disinfectant-impregnated wipes used for surface disinfection in hospitals](#))*  
**GAMA Healthcare**

*“During the pandemic wipes and specifically antibacterial products have played an important role in helping to keep the population healthy by providing convenient access to hygiene when access to soap and water is limited. The value and effectiveness of hygienic wipes in the quest for sanitisation (both within and away*

from the home) has led retailers to restrict purchasing of these necessary products on numerous occasions during the pandemic. Single use wipes remove and prevent the spread of harmful pathogens, hence promoting health and wellbeing. ([Improving Cleaning and Disinfection of High-Touch Surfaces in Intensive Care during Carbapenem-Resistant Acinetobacter baumannii Endemo-Epidemic Situations](#)). The domestic and medical use of wipes plays an important part in preventing the spread of many potentially fatal infections.” **Corff sy’n cynrychioli rhai cwmnïau gweithgynhyrchu**

**Cwestiwn 12:** A oes unrhyw eitemau eraill y dylid eu cynnwys mewn unrhyw gynigion yn y dyfodol i fynd i'r afael â phlastigion untro? Rhwch resymau gyda thystiolaeth i ategu hyn os oes modd.

<b>C12</b>				
	<b>Oes</b>	<b>Na</b>	<b>Heb ddweud Oes na Nac oes</b>	
				<b>Heb ateb</b>
<b>Nifer</b>	<b>1316</b>	<b>672</b>	<b>40</b>	<b>1401</b>
<b>Canran</b>	38%	20%	1%	41%
<i>Mae'r cyfrifiadau uchod yn ganran o gyfanswm yr ymatebion i'r ymgynghoriad llawn (3429)</i>				

Roedd cefnogaeth i gynllun dychwelyd ernes ar gyfer poteli a chaniau diodydd ynghyd â rhagor o weithredu i gael gwared ar blastigion untro eraill o'n bywydau. Awgrymwyd nifer o eitemau ychwanegol y gellid eu gwahardd ac er bod rhai o'r eitemau hyn yn cael eu gollwng fel sbwriel, ymddengys i eitemau eraill gael eu dewis am eu bod yn cael eu hystyried yn eitemau untro neu'n ddefnydd diangen o ddeunydd. Fodd bynnag, ar gyfer y mwyafrif, ni chafwyd rhesymau benodol pam y cawsant eu henwi fel eitem a allai fod yn destun gweithredu yn dyfodol.

Roedd yr eitemau a awgrymwyd yn cynnwys:

- Poteli diodydd plastig gan gynnwys poteli llaeth a mynd yn ôl at boteli gwydr a chloriau di-blastig;
- Raseli, tanwyr a chynhyrchion eraill untro;
- Deunydd pacio am ffrwythau a llysiau e.e. cucumerau;
- Deunydd lapio silwair a phorthiant ar ffermydd;
- Cwpanau coffi, 'cloriau diogelwch' plastig a chwpanau papur â leinin plastig na ellir eu hailgylchu;
- Sachets saws ac ati un pryd, y fraich blastig a ddefnyddir gyda pizzas tecawê i'w diogelu rhag i'r clawr wasgu arnynt ac eitemau tebyg;
- Brwsys dannedd;
- Glitter, balwnau, confetti, bynting ac eitemau addurniadol dros dro tebyg;
- Deunydd lapio am nwyddau pan brynir mwy nag un e.e. y cylchoedd plastig am duniau o ffa pob neu ganiau cwrw;
- Bagiau baw cŵn, sachau ar gyfer cewynnau babanod a bagiau bin nad ydynt yn fiogdiraddio;
- Weips colur / babanod, cewynnau untro a'u tebyg;
- Clymau, deunydd pacio ac ati ar deganau plant nad ydynt yn rhan o'r tegan;
- Astro turf a gorchuddion plastig ar gyfer cartrefi a dreifau;
- Hysbysebion wedi'u lamineiddio mewn papurau newydd a chylchgronau neu bost sothach;
- Pecynnau brechdanau a hambyrddau plastig du ar gyfer prydau parod;
- Deunydd lapio cellophane e.e. am becynnau sigarêts a phecynnau melysion a chreision;
- Cynhyrchion misglwyf untro;
- Tagiau plastig e.e. i ddal labeli pris neu faint ar ddillad;

- Hangers dillad plastig mewn siopau;
- Bagiau untro a 'Bagiau am Oes' plastig;
- Rhwydi a leiniau pysgota (masnachol a hamdden);
- Bagiau te a phodiau coffi;
- Gosodwr plastig ar gyfer tamponau;
- Cloriau cartonau llaeth a photeli;
- Deunydd lapio tynn am fwyd fel llysiau a bagiau salad wedi'u golchi;
- Ffyn lolipop, pacedi losin plastig ac eitemau tebyg;
- Cwpanau coffi tecawê â leinin plastig;
- Sachets a thybiau saws un pryd;
- Cewynnau untro;
- Mygydau a menig mewn lleoliadau anfeddygol;
- Ffedogau untro;
- Stwmps sigarêts plastig;
- Gwm cnoi;
- Offer pysgota; a
- Microffibrau o ddiillad.

**Cwestiwn 13:** Pa effeithiau fydd yn eich barn chi ar y Gymraeg? Sut mae cynyddu'r effeithiau cadarnhaol neu liniaru'r effeithiau negyddol?

Roedd y cwestiwn hwn yn gofyn am ateb naratif. O'r 180 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn nid oedd y rhan fwyaf ohonynt yn gallu nodi unrhyw effeithiau andwyol y byddai ein cynigion yn eu cael ar y Gymraeg. Defnyddiodd lleiafrif bach iawn o ymatebwyr y cwestiwn hwn i godi pwynt am gostau cynhyrchu gwybodaeth yn ddwyieithog.

Cynigiodd nifer o'r 180 o ymatebwyr safbwyntiau ehangach ar botensial y cynigion i gael budd anuniongyrchol ar yr iaith. Er enghraifft, drwy roi cyfle am fwy o ddwyieithrwydd ar becynnau cynhyrchion amgen a wneir yng Nghymru neu a gynhyrchir ar ei chyfer.

### **Dyfyniadau enghreifftiol**

*"I'm welsh and speak fluent welsh and I see no negative impact on the welsh language or to Wales. This may be an opportunity for welsh business owner to produce their own reusable utensils which are branded by their welsh business bilingual."* **Dienw**

*"I can't foresee a negative or positive impact."* **Dienw**

*"Methods to ensure a more positive impact on the Welsh language could be integrated such as bilingual guidelines, bilingual awareness raising campaigns."*  
**Alun Morgan Owen, Cyngor Sir Ynys Môn**

**Cwestiwn 14:** Esboniwch hefyd sut rydych chi'n credu y gellid llunio neu newid y polisi a gynigir ar gyfer gwahardd dosbarthu a/neu werthu'r eitemau plastig untro a gynigir fel bod effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a dim effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Roedd y cwestiwn hwn yn gofyn am ateb naratif. O'r 760 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn, teimlai pob un nad oedd y cynigion yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Codwyd rhai pwyntiau cyffredinol mewn perthynas â sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei defnyddio mewn ymgyrchoedd cyfathrebu i gefnogi'r rheoliad, y potensial i'r cynigion greu delwedd dda o Gymru a'r angen i ddiogelu ein treftadaeth ddiwylliannol.

### **Dyfyniadau enghreifftiol**

*"I don't really see how language and this issue are linked, but of course, taking progressive measures puts Wales on the map globally and this in turn solidifies people's pride in their Welsh identity." **Dienw***

*"Welsh Government assistance could be proactive for businesses that would wish to have Welsh language translation services available to promote the non plastic USP on their products." **Dienw***

*"Wales could be seen to be leading the way in this and perhaps Welsh language could be used to educate people in finding alternatives - translations for other products or tag-words and "slogans" that could be incorporated into every day use and/or learning at school." **Dienw***

**Cwestiwn 15:** Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i'w nodi.

Roedd y cwestiwn hwn yn gofyn am ateb naratif. Cafwyd mwy na 371 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, yn ymdrin ag ystod eang o bynciau ac yn cynnwys amrywiaeth o sylwadau ac awgrymiadau ynghylch plastigau untro. Cawsom gan nifer o ymatebwyr restr o eitemau mewn ymateb i'r cwestiwn hwn. Darparodd nifer o ymatebwyr ymatebion ar wahân i'r we-ffurflen ac roedd llawer ohonynt ar ffurf sylwadau ehangach nag yn atebion i gwestiynau penodol. Er hwylustod, rydym wedi nodi rhai o'r ymatebion hyn o dan y cwestiwn hwn. Ceir trosolwg cryno o'r ymatebion uniongyrchol ac anuniongyrchol i'r cwestiwn hwn isod:

- Mae angen i'r cynigion gael eu cyflwyno cyn gynted â phosibl, gan fod angen mynd i'r afael ar frys ag effeithiau amgylcheddol defnyddio a thafllu plastig untro. Ystyriwyd bod hyn yn arbennig o berthnasol yng ngoleuni'r newidiadau diweddar yn ymddygiad defnyddwyr o ganlyniad i bandemig COVID-19 (er enghraifft, mwy o ddefnydd o wasanaethau bwyd tecawei).
- Mae angen cysondeb o ran sut y byddai unrhyw reoliadau'n cael eu gweithredu a'u gorfodi yng Nghymru. Nododd eraill y dylai'r cysondeb hwn hefyd ymestyn i wledydd eraill y DU (pe baent yn dilyn trywydd tebyg) i sicrhau bod y polisi'n cael yr effaith fwyaf posibl o ran lleihau'r ddibyniaeth ar blastig untro. Nododd un ymatebydd hefyd oblygiadau posibl Mesur Marchnad Fewnol Llywodraeth y DU ar y cynigion.
- Ni ddylai Cymru aros i weddill y DU a dylem gymryd yr awenau fel y gwnaethom gyda'r tâl am fagiau siopa untro. Fodd bynnag, roedd rhai'n teimlo gan fod llygredd plastig yn broblem i'r DU ac i'r byd, bod angen cydweithio ag eraill mewn perthynas ag ymchwil a rhannu'r arfer gorau.
- Tynnodd cwmnïau gweithgynhyrchu deunydd pacio bwyd a phlastig ein sylw at yr angen i sicrhau nad oedd y cynigion yn effeithio ar ddiogelwch y cyhoedd na diogelwch a hylendid bwyd.
- Bod angen Asesu Cylch Bywyd deunyddiau amgen er mwyn sicrhau nad ydynt hwythau'n peryglu'r amgylchedd. Roedd rhai'n poeni y gallai fod mwy o blastig mewn cynhyrchion amgen nag yn y rheini sy'n cael eu gwahardd y maent yn cymryd eu lle. Er enghraifft, a fydd angen cloriau plastig ar gartonau diodydd os caiff gwellt plastig eu gwahardd.
- Bod angen i'r cynigion gael eu cynllunio a'u cynnal fel rhan o ffordd holistig o fynd i'r afael â'r problemau plastig untro. Gallai hynny gynnwys ymyriadau ehangach megis trethi, codi tâl neu ardollau, cyflwyno Cynllun Dychwelyd Ernes ar gyfer cynwysyddion diodydd, Cynllun Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr Estynedig a symud tuag at economi gylchol.
- Mae angen mwy o gymorth ar fanwerthwyr sy'n hyrwyddo opsiynau ail-lenwi neu 'dod â'ch cynwysyddion eich hun' fel dewis yn lle defnyddio plastig.

- Dylid canolbwyntio ar y busnesau a'r mewnforwyr mawr sy'n cynhyrchu llawer o'r gwastraff hwn, nid busnesau lleol bach sy'n gwerthu'r cynhyrchion.

Manteisiodd nifer o'r ymatebwyr hefyd ar y cyfle i godi pryderon a/neu gynnig sylwadau ar amrywiaeth o faterion amgylcheddol y tu allan i faes yr ymgynghoriad hwn, gan gynnwys:

- Yr angen i ddelio â'r gêr pysgota sy'n cael eu golchi i'r traethau;
- Cynhyrchion glanhau a'u heffeithiau ar iechyd pobl ac anifeiliaid yn ogystal ag ar yr amgylchedd;
- Effaith microffibrau a'r angen i wneud hidlyddion yn orfodol ar beiriannau golchi;
- Mesurau gorfodi llymach ar sbwriel a thipio anghyfreithlon;
- Mwy o bwyntiau gwefru trydan ar dir cynghorau / Llywodraeth Cymru i hyrwyddo'r defnydd o gerbydau trydan, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig;
- Mwy o ailgylchu plastigau meddal yng Nghymru i ddarparu swyddi ac osgoi effaith amgylcheddol teithiau cerbydau; ac
- Egluro beth sy'n digwydd i blastig untro ar ôl ei roi yn y bin ailgylchu.



## Ymatebion i'r Fersiwn Hawdd ei Ddarllen o'r ymgynghoriad ar blastig untro

**Cwestiwn 1:** Ydych chi'n cytuno â'n cynllun i leihau faint o blastig untro a ddefnyddir yng Nghymru? Os nad ydych chi, pam felly?

Hawdd ei Ddarllen – C1			
	Y	N	Heb ddweud Ydw na Nac Ydw
<b>Nifer</b>	<b>93</b>	<b>4</b>	<b>55</b>
<b>Canran</b>	61%	3%	36%
<i>Mae'r cyfrifiadau uchod yn ganran o gyfanswm yr ymatebion i'r ymgynghoriad llawn (3429)</i>			

Fel yr amlinellwyd uchod, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cefnogi ein cynigion. Dim ond nifer fach o ymatebwyr a roddodd reswm dros eu hateb (8). Roddodd y rhai a oedd yn cytuno â'n cynigion resymau yn poeni fwyaf am ddiogelu'r amgylchedd a lleihau sbwriel. Roedd syniad arall mewn perthynas ag adeiladu gweithfeydd ailgylchu arbenigol yng Nghymru (gweler isod). Awgrymodd ymatebydd arall y gallai gwahardd bagiau plastig achosi problemau i'r rhai sydd am gael eu siopa wedi'i gludo i'w cartref. Fodd bynnag, ystyrid bod hon yn broblem y gellid mynd i'r afael â hi o fewn y diwydiant.

### Dyfyniadau enghreifftiol

*"We need to consider alternative methods. Why not insist all single use plastic is all 100% recyclable, and build specialised recycling plants in Wales to take care of all Wales products, plus income generate from our English neighbour. Not an overnight solution, but the sooner the ball starts rolling..."* **Ken Jones**

*"Manufacturers are already legally responsible for disposal of their products. Enforce 1990s EC laws as intended. Brexit is not an excuse as laws still stand until they are changed. Plant based plastics are already on the market, so ban all other plastic manufacture. There should be no exemptions, not even for medical devices. 1993 EC law for devices considers the environment and these laws still need to be applied and chemical plastics need to be excluded from the environment altogether."* **Dienw**

**Cwestiwn 2:** Allwch chi feddwl am unrhyw eitemau plastig untro eraill y dylem eu cynnwys ar y rhestr a nodwyd ar ddechrau'r holiadur hwn?

Nid oedd y cwestiwn hwn yn gofyn am ateb cadarnhaol na negyddol, felly nid oes tabl. Cafwyd 67 o ymatebion i'r cwestiwn hwn ac awgrymwyd amrywiaeth o eitemau ychwanegol. Ceir crynodeb ohonynt isod:

- Weips, gan gynnwys weips babanod a weips y gallwch eu fflysio;
- Deunydd pacio am lysiau e.e. cucumerau a chloriau plastig ar becynnau ffrwythau meddal;
- Ewinedd a blew amrannau ffug;
- Cynhyrchion misglwyf gan gynnwys gosodwyr tamponau;
- Pecynnau pothellog ar gyfer meddyginiaethau neu fitaminau, a deunydd pacio tebyg;
- Pecynnau creision a losin gan gynnwys cynnyrch papur cymysg e.e. tiwbiau Pringles;
- Poteli plastig ar gyfer diodydd, cwpanau cardfwrdd untro â leinin plastig o siopau tecawê;
- Deunydd lapio am nwyddau pan brynir mwy nag un e.e. cylchoedd plastig am ganiau diodydd;
- Bagiau plastig tenau e.e. ar gyfer llysiâu neu i roi am gig sydd eisoes wedi'i becynnu mewn plastig wrth dil yr archfarchnad;
- Plastig lle mae blychau cardfwrdd eisoes yn diogelu nwyddau e.e. teganau plant;
- Plastig na ellir ei ailgylchu gan gynnwys eitemau sydd â label i ddweud bod modd ei gompostio neu ei fod yn bioddiraddio, pan na cheir ffrwd casglu gwastraff o'r fath ar ymyl y ffordd;
- Mygyddau untro y tu allan i'r maes meddygol;
- Balwnau;
- Podiau golchi dillad / llestri a microffibrau a gollir wrth olchi dillad;
- Pecynnau EPS o bob math;
- Potiau iogwrt;
- Sachets saws a llaeth un pryd; a
- Plastig lapio gwair / silwair.

**Cwestiwn 3:** Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i'w nodi.

Nid oedd y cwestiwn hwn yn gofyn am ateb cadarnhaol na negyddol, felly nid oes tabl. Cawsom gyfanswm o 25 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Ond cawsom ymatebion fyddai wedi bod yn fwy priodol i'r cwestiwn hwn mewn adrannau eraill o'r ffurflen ymateb. Rydym wedi'u crynhoi yn y cwestiwn hwn.

Roedd cefnogaeth gyffredinol i wahardd plastig untro ond aed ymhellach i ystyried rhagor o eitemau. Nododd sawl ymatebydd, tra ei bod hi'n dal i fod yn rhatach i gwmnïau ddefnyddio plastig na ellir ei ailgylchu, nid oes cymhelliad i newid eu hymddygiad. Galwodd nifer o ymatebwyr am ganllawiau cliriach ar ailgylchu ar labelu cynnyrch â chyfarwyddiadau ailgylchu arnynt. Cododd rhai ymatebwyr bryderon ynghylch faint o'r deunydd pacio bwyd sy'n cyfrannu at wastraff domestig llawer o bobl sydd ond yn cael ei ddefnyddio er hwylustod masnachol / logistaidd.

Tynnwyd sylw hefyd at ddŵr potel fel problem, gyda chwestiynau ynghylch natur anghynaliadwy cludo cynnyrch sydd ar gael yn hawdd o dap. Roedd nifer o'r ymatebwyr yn poeni am yr amgylchedd, yn enwedig sbwriel ar yr arfordiroedd ac yn y moroedd ac effeithiau micro-blastig ar anifeiliaid. Roedd galw hefyd am ddarparu mwy o finiau a manau ailgylchu mewn manau twristaidd ac ar hyd yr arfordiroedd.

Gofynnodd nifer o'r ymatebwyr i'r llywodraeth 'feddwl y tu allan i'r blwch' i helpu i leihau gwastraff a hyrwyddo nwyddau wedi'u hailgylchu, gan gynnwys cosbau ariannol / cymorth i weithgynhyrchwyr a chynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg ar ddeunydd pacio a ddefnyddir yng Nghymru. Roedd galw hefyd am fwy o addysg am y pwnc a lle bo'n bosibl cysylltu'r effeithiau â sefyllfaoedd lleol sy'n berthnasol i bobl.

## Ymateb y Llywodraeth – y camau nesaf

Mae angen newid ein defnydd o blastigau yn ogystal â'r gyfraith mewn perthynas â gwerthu plastigau fel mater o frys, er mwyn osgoi gadael gwaddol gwenwynig ar gyfer genedlaethau'r dyfodol. Mae llawer o bobl yng Nghymru eisoes yn gweithredu i leihau faint rydym yn dibynnu ar blastig untro, i newid ein harferion ac i wneud cynhyrchion a gwasanaethau yn fwy cynaliadwy. Fel Llywodraeth rydym wedi ymrwymo i gefnogi eu hymdrechion. Mae hyn yn cynnwys defnyddio'r pwerau sydd ar gael inni i atal rhagor o blastigau untro rhag cael eu defnyddio, ac i annog rhagor o gymunedau a busnesau i wneud newidiadau cadarnhaol sy'n lleihau gwastraff plastig.

Yn aml mae'n anodd ailgylchu cynhyrchion plastig. Maent yn aml yn cael eu gwaredu mewn modd amhriodol ac yn para am flynyddoedd lawer – sy'n golygu eu bod yn cronni ar ein strydoedd, yn y cefn gwlad ac ar ein traethau. Pan fyddant, yn y pen draw, yn dadelfennu, maent yn peri difrod i'n bywyd gwyllt, gyda thystiolaeth gynyddol yn cael ei chanfod mewn pysgod, pysgod cregyn, adar môr a mamaliaid môr – y mae rhai ohonynt yn rhan o gadwyn fywyd pobl. Mae ymchwil yn dangos bod plastig yn yr amgylchedd yn denu ac yn amsugno llygryddion eraill, fel metelau trwm, sy'n ei gwneud yn fwy peryglus byth i anifeiliaid, microbau a phlanhigion sy'n dod i gysylltiad ag ef. Mae effeithiau llygredd plastig, sy'n helaeth, yn ansicr, yn parhau am amser hir ac yn cronni yn gyflym yn gofyn am ddull radical a phenderfynol.

Felly, rydym yn croesawu'r nifer fawr o ymatebion a safbwyntiau a dderbyniwyd ar gyfer yr ymgynghoriad hwn. Roedd yn amlwg o'r adborth a roddwyd fod cefnogaeth gref ar gyfer ein cynigion deddfwriaethol, gyda llawer o bobl yn ein hannog i fynd ymhellach. Gwelir tystiolaeth o'r galw am weithredu hwn yn y nifer cynyddol o "Gymunedau Di-blastig" sy'n cael eu sefydlu ledled Cymru, a'r llawer o bobl ifanc sy'n arwain y gweithredu i fynd i'r afael â llygredd plastig, gan gynnwys y rhai yn Senedd leuencid Cymru.

Ar 5 Gorffennaf cyhoeddodd y Prif Weinidog y byddai'r cam cyntaf i fynd i'r afael â llygredd sy'n cael ei beri gan sbwriel plastig yn cael ei gyflawni drwy'r Bil Cynhyrchion Plastig Untro, a fydd yn cael ei gyflwyno yn ystod ail flwyddyn y tymor Senedd hwn. Dyma'r cam cyntaf mewn rhaglen o fesurau sydd â'r nod o fynd i'r afael â llygredd plastig a chyflawni'r ymrwymiad yn ein Rhaglen Lywodraethu i gael gwared ar gynhyrchion plastig untro sydd mor aml yn cael eu taflu.

Y cynhigion yn ein hymgyngoriad oedd gwahardd cytleri, platiau, troellwyr diodydd, gwellt yfed, ffyn cotwm a ffyn balwnau untro wedi'u gwneud o blastig, cwpanau a chynhwysion bwyd wedi'u gwneud o bolystyren wedi'i ehangu/anwthio a chynhyrchion wedi'u gwneud o blastig oco-bioddiraddiadwy. Yn dilyn yr adborth o'r ymgynghoriad, rwy'n awyddus i fynd ymhellach a defnyddio'r deddfwriaeth hon i yrru ein huchelgeisiau ehangach mewn perthynas â gwastraff a amlinellir yn ein [Strategaeth Economi Gylchol, Mwy nag Ailgylchu](#) a'n [Cynllun Atal Sbwriel a Thipio Anghyfreithlon](#) Drafft. Mae hyn yn cynnwys camau gweithredu er mwyn i Gymru fod y wlad gyntaf i beidio ag anfon unrhyw wastraff i safleoedd tirlenwi ac i leihau faint

rydym yn dibynnu ar y cynhyrchion hynny sy'n deillio o danwydd ffosil ac sy'n cyfrannu at yr argyfwng hinsawdd a'r argyfwng natur.

Bydd cefnu ar ddefnyddio plastigau yn ei gwneud yn ofynnol inni newid ein harferion, a dod i arfer â chael mynediad at gynhyrchion a gwasanaethau mewn ffyrdd gwahanol. Mae newid o'r fath yn gwbl bosibl, fel y mae llawer o fusnesau a chymunedau brwd yn dangos inni bob dydd ledled Cymru. Rydym yn ymwybodol o'r ffaith y bydd rhai pobl a busnesau'n cael y newidiadau'n fwy anodd na'r lleill, a bydd angen amser a chymorth arnynt. Fodd bynnag, mae angen dybryd i gynyddu cyflymder y newid er mwyn atal difrod amgylcheddol a fydd â chost uchel inni heddiw ac i genedlaethau'r dyfodol. Yn yr un modd, mae cyfleoedd i sicrhau manteision economaidd lleol ac i gymunedau i ddod ynghyd ynghylch yr awydd i weld amgylchedd lleol glanach.

Mae'r ymgynghoriad ar blastigau untro yn adlewyrchu'r graddau mae'r cyhoedd yng Nghymru yn mynnu newid, a'u hymrwymiad i wireddu'r manteision hyn ac i drechu'r heriau. Rydym wedi ymrwmo i sicrhau bod y diwygiadau rydym yn eu cyflwyno yn y maes hwn yn ymateb i'r arweinyddiaeth a ddangoswyd gan gyhoedd Cymru, er mwyn gwneud penderfyniad pendant i gefnu ar ddefnyddio plastig i sicrhau Cymru wyrddach, decach a mwy ffyniannus.

# ATODIAD 1

## **Senedd Ieuenctid Cymru / Welsh Youth Parliament – Gweithdy'r ymgynghoriad ar sbwriel**

Ymunodd y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol, ynghyd â chynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, â gweithdy rhithwir o Senedd Ieuenctid Cymru ar 3 Hydref 2020 i drafod a chlywed adborth ar yr ymgynghoriad ar Leihau Plastig Untro. Cyflwynwyd crynodeb o'r cynigion i'r rhai a oedd yn bresennol a'u gwahodd i gynig eu sylwadau/adborth.

Roedd Senedd Ieuenctid Cymru hefyd wedi lansio ei hymgyngoriad ei hun ar sbwriel a gwastraff plastig cyn ymgynghoriad Llywodraeth Cymru. Mae canlyniad hwnnw i'w weld yn eu [HADRODDIAD LLEIHAU, AILDDEFNYDDIO AC AILGYLCHU](#).

### Ymgynghori

Mynegwyd barn gyffredinol ar sut y mae Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â phobl ifanc ar hyn o bryd drwy ei phrosesau ymgynghori. Cafwyd sylwadau gan nifer o bobl ynghylch y perygl y gallai dogfennau mawr ffurfiol ladd diddordeb pobl ifanc a chrosawyd y fersiwn hawdd ei ddarllen a gyhoeddwyd ar gyfer yr ymgynghoriad hwn. Fodd bynnag, awgrymwyd hefyd y dylai Llywodraeth Cymru ystyried defnyddio dulliau ymgysylltu eraill, er enghraifft cyfryngau cymdeithasol fel Instagram a Tik Tok.

Cafwyd cefnogaeth eang gan y rhai a oedd yn bresennol i'r angen i weithredu ar yr holl eitemau a restrwyd yn yr ymgynghoriad. Fodd bynnag, codwyd pryderon gan rai ynghylch effeithiau negyddol posibl gwahardd gwellt ar bobl anabl. Roedd cefnogaeth eang i sicrhau bod gwellt untro ar gael i'r bobl sydd eu hangen. Codwyd pryderon tebyg mewn perthynas â weips gan eu bod yn cael eu hystyried yn hanfodol i gynnal hylendid ac annibyniaeth. Roedd galw i gefnogi dewisiadau amgen mwy ecogyfeillgar ac am fwy o addysg ar effaith gwaredu weips a'u cadwyn gyflenwi. Tynnodd rhai aelodau o'r Senedd Ieuenctid ein sylw hefyd at y risg y gallai'r rheini sy'n gwrthwynebu'r gwaharddiadau hyn am resymau iechyd ac anabledd gael eu stigmatiddio am beidio â phoeni am yr amgylchedd pan nad oedd hynny'n wir.

Nododd un aelod o'r Senedd Ieuenctid mai rhesymau economaidd-gymdeithasol yn aml sy'n rhwystro pobl ifanc rhag gwneud y peth iawn o ran prynu cynhyrchion amgen. Er enghraifft, efallai na fydd gan y rhai sy'n byw mewn ardaloedd llai cefnog siopau di-blastig neu efallai y bydd cynhyrchion amgen yn rhy ddrud. Teimlwyd y gellid gwneud mwy i wneud y cynhyrchion hyn yn fwy hygyrch ac yn rhatach.

Codwyd pryderon a oedd cynnyrch sy'n cael eu marchnata fel rhai "ecogyfeillgar" wir yn ecogyfeillgar. Cyfeiriwyd at gynhyrchion a wnaed o gotwm fel enghraifft, sydd ag angen llawer iawn o ynni ac adnoddau i'w gwneud. Cyfeiriwyd hefyd at y duedd gynyddol i 'wyrddgalchu', pan honnir bod cynhyrchion yn fuddiol i'r amgylchedd pan nad yw hynny o reidrwydd yn wir. Awgrymodd y grŵp fod angen mwy o wybodaeth i helpu pobl i wneud y penderfyniadau iawn.

Yna gofynnwyd i'r aelodau ystyried cynhyrchion ychwanegol eraill yr hoffent eu gweld yn cael eu cynnwys yn ein cynigion. Cyfeiriwyd at nifer o eitemau gan gynnwys:

- Cynhyrchion misglwyf untro – yn benodol, gosodwyr tamponau;
- Pecynnau creision a chodau bwyd babanod – Cyfeiriwyd atynt am mai ychydig iawn o weithfeydd ailgylchu yn y DU sy'n gallu eu hailgylchu, er bod modd eu hailgylchu. Awgrymwyd y syniad o gynyddu cost cynhyrchion mewn pecynnau nad oes modd neu sy'n anodd eu hailgylchu;
- Deunydd pacio a lapio bwyd mewn archfarchnadoedd; a
- Tagiau plastig ar ddillad.

### Sylwadau eraill

Roedd cefnogaeth eang i gynigion eraill Llywodraeth Cymru gan gynnwys y bwriad i gyflwyno Cynllun Dychwelyd Ernes ar gyfer cynwysyddion diodydd.

Cefnogwyd hefyd egwyddor 'y llygrwr sy'n talu' a chyfrifoldeb estynedig y llygrwr am oes eitemau cyfan, ar gyfer plastigau a nwyddau eraill.

## Gweithdy Platfform yr Amgylchedd Cymru

Diben y gweithdy oedd casglu rhywfaint o fewnbwn technegol gan academyddion a rhanddeiliaid eraill ynghylch rhai agweddau mwy technegol ar gyflwyno rheoliadau i wahardd plastig untro.

Fel rhan o'r gweithdy, cawsom drafodaethau ynghylch y diffiniadau o blastig y gallem eu defnyddio yn y rheoliadau.

Gwnaethom hefyd geisio barn ynghylch eitemau eraill y gallem weithredu arnynt yn y dyfodol. Mae'r eitemau a awgrymwyd wedi'u cynnwys yn yr ymatebion i gwestiwn 12.

Roedd allbwn y diwrnod yn cynnwys 6 thrafodaeth 'bwrdd gwyn ar-lein', yn ateb y cwestiynau canlynol:

- Sut y dylem ddiffinio "plastig"? a beth yw plastig "untro"?
- A ddylem ystyried plastig sy'n ocso-diraddiadwy a/neu blastig biogdiraddiadwy fel rhan o'r gwaharddiad?
- Pa mor gyffredin yw'r rhain ar hyn o bryd?
- I beth maen nhw'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd?
- A ddylem boeni ynghylch cynyddu'r defnydd o blastig ocso-diraddiadwy a/neu fiogdiraddiadwy yn y dyfodol?
- Beth yw'r dibenion tebygol yn y dyfodol?

Bu'r cynrychiolwyr yn ystyried hefyd sut y gellid blaenoriaethu eitemau plastig untro ar gyfer gweithredu yn y dyfodol.



## Digwyddiad Cymunedol ar gyfer Ymgynghori ar Leihau'r Defnydd o Blastig Untro – Pont-y-pridd

Ymunodd y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol â digwyddiad cymunedol i drafod lleihau'r defnydd o blastig untro ar 15 Hydref 2020.

Codwyd y pwyntiau trafod canlynol mewn ymateb i gyflwyniad y Dirprwy Weinidog am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i leihau'r defnydd o blastig untro a datblygu economi gylchol yng Nghymru.

1. Roedd cefnogaeth eang i'r gwaharddiadau a nodwyd yn yr ymgynghoriad *Lleihau'r Defnydd o Blastig Untro* ac ymdrechion ehangach i leihau sbwriel / gwastraff.
2. Awgrymodd un person y gellid annog pobl i ddod â'u gwellt metel neu fath aml-dro arall eu hunain i fwytai, caffis a thafarndai pe bai rhai plastig yn cael eu gwahardd.
3. Roedd cydnabyddiaeth bod eitemau aml-dro yn dod yn fwy cyffredin, ond mae hi'n dal i fod yn anodd cael hyd i opsiynau 'dim gwastraff' ac yn aml maen nhw'n ddrutach. Mae hyn yn rhwystr posibl i'r rheini mewn grwpiau economaidd-gymdeithasol is sydd am wneud y peth iawn. Teimlwyd y gallai Llywodraeth Cymru wneud mwy i sicrhau bod dewisiadau amgen cynaliadwy / mwy ecogyfeillgar ar gael yn eang ac yn rhad.
4. Awgrym arall oedd bod pob siop fwyd yn cynnig system ail-lenwi poteli dŵr / diodydd. Efallai hyd yn oed i'w gwneud yn orfodol i fusnesau gynnog y gwasanaeth hwn.
5. Dywedwyd bod "eco-addysg" ar leihau gwastraff a pheidio â thafu sbwriel yn gweithio'n dda ar lefel ysgolion cynradd. Gellid ei gwella ar lefel ysgolion uwchradd.
6. Cafwyd trafodaeth am broblem tafu sbwriel, lle tynnwyd sylw at y ffaith mai pwnc opsiynol yw eco-wersi mewn ysgolion uwchradd. Awgrymwyd bod rhai yn 'rhy cŵl' i ddewis yr opsiwn hwn, gan greu problemau wrth rannu negeseuon o blaid yr amgylchedd â'r rhai yr oedd angen iddynt eu clywed fwyaf efallai. Awgrymwyd y gellid defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i gyrraedd myfyrwyr o'r fath. Er enghraifft, ffilm Instagram Zac Efron ac adroddiadau amdano'n casglu sbwriel.
7. Awgrym arall oedd datblygu cynllun cymell mewn ysgolion lle byddai ymddygiad amgylcheddol da drwy gydol y tymor yn cael ei wobrwyo (er enghraifft taith ysgol am ddim).
8. Gwnaeth un cyfranogwr ddod â bin mawr oedd yn goleuo. Roedd wedi'i wneud o boteli plastig ac awgrymodd y gellid defnyddio'r bin i gasglu plastig ar gyfer ei ailgylchu. Teimlai pe bai ysgolion yn cynnig y cyfle i ddisgyblion wneud bin o'r fath neu eitemau tebyg y byddai o fudd addysgol ar nifer o lefelau - trwy dynnu sylw at ailgylchu, aildefnyddio ac addasu deunyddiau gwastraff wrth ddysgu sgiliau crefft/peirianeg.

9. Tynnodd cyfranogwr arall ein sylw at broblem gor-becynnu gan gwmnïau ar-lein. Awgrymwyd bod arferion gweithio yn y storfeydd yn gwaethygu'r broblem, lle mae gofyn i gyflenwyr becynnu eu heitemau i'w gwerthu mewn bagiau plastig er mwyn eu gwneud yn haws eu casglu. Roedd consensws cyffredinol o blaid rhoi mwy o bwysau a chyfrifoldeb ar gynhyrchwyr a gweithgynhyrchwyr.
10. Codwyd problem defnyddio plastig mewn ysgolion i weini prydau ysgol, gan gynnwys clingffilm a chytleri plastig.